**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Tachwedd 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Entrepreneuriaeth Ieuenctid

Tachwedd 2013

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafnidiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Nick Ramsay (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**Mick Antoniw**
Llafur Cymru
Pontypridd



**Byron Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Dafydd Elis-Thomas**
**(tan 24.9.2013)**
Plaid Cymru
Dwyfor Meirionnydd



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Eluned Parrott**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberavon



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Rhun ap Iorwerth**
**(o 24.9.13)**
Plaid Cymru
Ynys Môn

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** .......... **5**

**Rhagair** .......... **7**

**Cyflwyniad i'r ymchwiliad** .......... **8**

**Y Fframwaith Polisi** .......... **10**

Mentrau Llywodraeth Cymru .......... 10

Ystadegau a thueddiadau entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc .......... 11

Monitro a gwerthuso .......... 12

**Yr Ysbryd Entrepreneuraidd** .......... **15**

Mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc .......... 19

**Menter mewn addysg** .......... **21**

Hyrwyddo entrepreneuriaeth ar oedran cynnar .......... 21

Gwneud entrepreneuriaeth yn ganolog i addysg bellach ac addysg uwch .......... 23

Mentrau cymdeithasol .......... 24

**Cyfeirio** .......... **26**

Swyddogaeth Gyrfa Cymru .......... 26

**Cyllid a chymorth** .......... **30**

**Y Cyd-destun Rhanbarthol** .......... **33**

**Mentora** .......... **35**

**Atodiad A – Cylch gorchwyl yr ymchwiliad** .......... **38**

**Atodiad B – Ymweliad â Sefydliad Alacrity, Casnewydd, 6 Mehefin 2013** .......... **40**

**Atodiad C – Ymweliad â Chlwb Menter Sir y Fflint, Glannau Dyfrdwy, 6 Mehefin 2013** .......... **51**

**Tystion** .......... **58**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **60**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad hwn. Mae ein holl argymhellion wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r diffyg cysylltiad rhwng lefel y diddordeb a'r awydd am entrepreneuriaeth ymysg yr ifanc a nifer gwirioneddol y busnesau a gaiff eu dechrau gan bobl ifanc, a darganfod beth yw'r ffordd orau o gau'r bwlch hwnnw. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio i wella cysondeb y data sydd ar gael ar entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc, a monitro a gwerthuso'n drylwyr y cynnydd a wneir a'i gymharu â gwledydd eraill. Dylid ceisio casglu rhagor o wybodaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau, fel effaith entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc ar economi Cymru yn ehangach, ac olrhain cynnydd pobl ifanc yn yr hirdymor yn dilyn addysg mentergarwch, gan gynnwys rhannu'r wybodaeth yn ôl y rhywiau. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid newid y diwylliant o amgylch entrepreneuriaeth, a gweithio gyda phartneriaid fel Ymddiriedolaeth y Tywysog i wireddu yn benodol uchelgais pobl ifanc sydd wedi'u hymddieithrio. Gallai Gweinidogion ystyried cynnal cynhadledd flynyddol i bobl ifanc, eu haddysgwyr a'u rhieni, er mwyn iddynt gael eu hysbrydoli gan entrepreneuriaid ifanc llwyddiannus. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o'r cwricwlwm mewn addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yn hytrach nag yn rhywbeth sydd wedi'i ychwanegu ar y diwedd, gan osod sgiliau mentergarwch wrth galon y system addysg yng Nghymru. Dylai hefyd ystyried sut y mae modd hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhellach, a'i brif ffrydio yng Nghymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu pwy ddylai ymgymryd â'r rôl o ddarparu porth cyngor a chyfarwyddyd canolog ar gyfer entrepreneuriaid ifanc a darpar entrepreneuriaid ifanc, a datblygu cynllun o ran yr opsiynau sydd ar gael, ac yna gweithio i sefydlu'r canolfannau hynny ledled Cymru. (Tudalen 26)

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi eglurhad o'r asesiad a wnaeth o effeithiolrwydd Menter yr Ifanc, cyn i arian y fenter gael ei dynnu yn ôl. (Tudalen 28)

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac adolygu effaith y newid i gylch gwaith Gyrfa Cymru a'r lleihad tymor byr a ragwelir yn y ddarpariaeth o weithgareddau entrepreneuriaeth i bobl ifanc, a chyhoeddi ei chanfyddiadau mewn adroddiad ar weithrediadau Gyrfa Cymru yn ei flwyddyn gyntaf. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r amrywiaeth o gynlluniau sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc sy'n sefydlu eu busnesau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys darparu rhagor o gyfleusterau deori busnesau, a chyda phartneriaid — gan gynnwys Menter yr Ifanc ac Ymddiriedolaeth y Tywysog — amlinellu eu rôl ar gyfer y dyfodol yn strategol a daearyddol o ran darparu'r Cynllun Gweithredu IE, gweithgarwch mentergarwch o fewn Bagloriaeth Cymru ac unrhyw arian cymesurol. (Tudalen 32)

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arferion da sy'n cael eu datblygu gan y Canolfannau Entrepreneuriaeth Rhanbarthol yn cael eu rhannu ledled Cymru, ac y dylid eu hysbysebu'n fwy amlwg yn eu hardaloedd lleol. (Tudalen 34)

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru annog a chymell mwy o bobl ifanc i allu dysgu a rhannu sgiliau drwy rwydweithio a mentora, a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant un-i-un gan ystod fwy amrywiol o fentoriaid. (Tudalen 37)

## Rhagair

1. Roedd hwn yn ymchwiliad diddorol dros ben, er yn rhwystredig ar yr un pryd. Cawsom ein hysbrydoli gan yr entrepreneuriaid ifanc a siaradodd â ni. Cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hyrwyddo entrepreneuriaeth a'r ystod o fentrau a roddwyd ar waith i gyrraedd y nod hwnnw gryn argraff arnom. Cawsom ein calonogi gan yr ystadegau sy'n dangos tuedd ar i fyny o ran brwdfrydedd a diddordeb mewn entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc.

2. Eto i gyd, mae bwlch yn parhau o hyd rhwng y don honno o ddyhead a realiti go iawn. Dywedodd un tyst fod y cyfleoedd, y mentrau a'r sefydliadau sydd ynghlwm wrth entrepreneuriaeth yn un ddrysfa fawr. Testun pryder arall i ni oedd diffyg tystiolaeth empirig ar ganlyniadau'r llu o weithgareddau sy'n digwydd ledled Cymru.

3. Fel Pwyllgor, mae gennym weledigaeth driphlyg: yn gyntaf, i entrepreneuriaeth fod yn rhan greiddiol o system addysg Cymru er mwyn i bobl ifanc gael profiad o ysbryd entrepreneuriaeth o oedran cynnar a'i fod yn datblygu'n rhan ganolog o'u bywydau bob dydd.

4. Yn ail, rydym am weld symleiddio'r ddarpariaeth er mwyn annog a chefnogi entrepreneuriaid ifanc presennol a darpar entrepreneuriaid – er enghraifft siop un stop a map eglur o'r cyfleoedd sydd ar gael – yn ogystal â gwella'r cydgysylltiad rhwng y sefydliadau a'r rhaglenni niferus sy'n darparu cymorth. Bydd hynny'n golygu meddwl yn fwy cydgysylltiedig ar draws adrannau Llywodraeth a gwella parhad buddsoddiadau er mwyn i entrepreneuriaid ifanc gael eu meithrin ar sail fwy hirdymor.

5. Yn olaf, mae angen monitro a gwerthuso effeithiau a chanlyniadau hydredol ac ehangach strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc er mwyn mesur effeithiolrwydd a sicrhau'r effaith fwyaf.

6. Os gellir cyflawni hyn oll – ac ystyriwn fod y Canolfannau Rhanbarthol ar gyfer Entrepreneuriaeth Ieuenctid newydd â rhan bwysig yn hyn – gwelwn entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc fel sbardun allweddol i alluogi Cymru i ddod yn batrwm o economi wedi'i hadeiladu ar yr ymchwil am arloesedd a gwybodaeth ac ar ddiwylliant o weithio mewn partneriaeth.

## Cyflwyniad i'r ymchwiliad

7. Roedd pum prif gam i'r ymchwiliad hwn. Y cyntaf oedd ein galwad am ymatebion ysgrifenedig i gylch gorchwyl yr ymchwiliad.[1] Ymatebodd dros 20 o sefydliadau, ac maent i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

8. Roedd ail gam yr ymchwiliad yn cynnwys pecyn fideo wedi'i gynhyrchu gan dîm Allgymorth y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gasgliad o hanesion a phrofiadau myfyrwyr, pobl ifanc sy'n mynd drwy'r broses o ddechrau busnes, perchnogion busnesau ifanc, athrawon a hyfforddwyr ledled Cymru. Mae'r fideo i'w weld yn http://www.youtube.com/playlist?list=PLAiwHW5TKfkF_lg7hsBPZorRxbKIGcf9s

9. Dangosai'r fideo ddawn a dycnwch y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan, ond tynnai sylw at nifer o broblemau:

- Diffyg menter drwy'r holl system addysg
- Diffyg meddwl cydgysylltiedig rhwng rhaglenni a sefydliadau gwahanol
- Cyngor a chymorth annigonol, er enghraifft diffyg cyfeirio at wybodaeth, gormod o fiwrocratiaeth, anhyblygrwydd ac oedi o fewn y system grantiau, a diffyg cymorth arbenigol
- Diffyg cymorth mwy hirdymor i alluogi mentrau i dyfu
- Canfyddiad mai Caerdydd yw'r unig ganolfan weithgaredd o gymharu â gweddill Cymru, yn enwedig ardaloedd gwledig
- Pwysigrwydd teulu, ffrindiau a mentoriaid ar gyfer sbarduno a chynnal yr ysbryd entrepreneuraidd.

10. Dyma'r themâu a archwiliwyd gennym yn ystod gweddill ein hymchwiliad.

11. Roedd trydydd cam ein hymchwiliad yn cynnwys ymweliadau canfod ffeithiau â dau gynllun menter: Sefydliad Alacrity yng Nghasnewydd a Chlwb Menter Sir y Fflint yng Nglannau Dyfrdwy. Prosiect ar y cyd yw Alacrity rhwng Llywodraeth Cymru, cwmni Syr Terry Matthews, Welsey Clover, a buddsoddwyr preifat eraill, sy'n darparu dwy flynedd o hyfforddiant a mentora i raddedigion i'w helpu i

[1] Gweler Atodiad 1

sefydlu busnesau yn y diwydiannau uwch-dechnoleg. Sefydlwyd Clwb Menter Sir y Fflint yn ddiweddar gan Rwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint gyda chyllid o raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru a chymorth gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'r Clwb yn cefnogi entrepreneuriaid lleol drwy ddarparu cyfleoedd i rwydweithio, gweithdai, siaradwyr gwadd ysbrydoledig a chyfleoedd i ddysgu gan arbenigwyr busnes.

12. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ddau brosiect am eu croeso. Mae cofnod llawn o'n canfyddiadau wedi'i gynnwys ar ffurf Atodiad B ac Atodiad C yn yr adroddiad hwn.

13. Roedd cam pedwar yr ymchwiliad yn cynnwys cymryd tystiolaeth lafar gan amryw o dystion, sydd wedi'u rhestru ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

14. Yn olaf, craffwyd ar waith Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ar bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc o ystyried bod y strategaeth entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn strategaeth ar y cyd rhwng y ddwy adran.

15. Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at ein hymchwiliad. Gobeithiwn fod ein hadroddiad a'r argymhellion wedi ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law ac y byddant yn mapio ffordd gliriach o hyrwyddo a chefnogi entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn y dyfodol.

# Y Fframwaith Polisi

Mae cefnogaeth i entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn wych[2]

**Mentrau Llywodraeth Cymru**

16. Ym mis Tachwedd 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru ei gynllun gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid: Cynllun Gweithredu i Gymru 2010-2015. Strategaeth ar y cyd yw hon rhwng Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Adran Addysg a Sgiliau, ac mae'n dilyn strategaeth a chynllun gweithredu blaenorol ar gyfer y cyfnod 2004-2009.

17. Nod y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid yw arfogi pobl ifanc rhwng 5 a 25 oed â sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd ac mae iddi dair thema – ymgysylltu, grymuso a galluogi. Ei gweledigaeth yw "datblygu a meithrin pobl ifanc hunangynhaliol ac entrepreneuraidd ym mhob cymuned ar draws Cymru, a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol". Nododd tystiolaeth ysgrifenedig gan yr Adran Addysg a Sgiliau fod y Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid wedi'i dewis gan Fforwm Economaidd y Byd yn un o bedair astudiaeth achos arfer da mewn strategaethau cenedlaethol ar gyfer dysgu entrepreneuraidd.[3]

18. Mae gweithgareddau Llywodraeth Cymru i gyflawni cynllun gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn cynnwys Bwrsariaeth Entrepreneuriaeth yr Ifanc gwerth £6,000 o dan Twf Swyddi Cymru; Bwrsariaeth Cychwyn Busnes i Raddedigion gwerth £6,000; gwneud entrepreneuriaeth yn ganolog i addysg drwy Fframwaith Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (11-19), Llwybrau Dysgu (14-19) a Bagloriaeth Cymru; Hyfforddeiaethau; Cynllun Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid; y chwe Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth Busnes; 385 Model Rôl Dynamo; chwe Chanolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol wedi'u lleoli mewn sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach; y £4.4m ychwanegol ar gyfer gwasanaethau newydd ym maes entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc a gyhoeddwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ym mis Mawrth 2013; ac ymgyrch Syniadau Mawr Cymru.

---

[2] James Taylor, Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth Busnes, Cofnod y Trafodion, paragraff 56, 26 Mehefin 2013

[3] Tystiolaeth ysgrifenedig yr Adran Addysg a Sgiliau tudalen 1

## Ystadegau a thueddiadau entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc

19. Mae cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd cam cynnar ymysg pobl ifanc 18 i 24 oed yn uwch yng Nghymru nag yng ngwledydd eraill y DU (dros 10.2 y cant o gymharu â chyfartaledd y DU o 6.2 y cant).[4]

20. Fodd bynnag, nid yw'r lefel hon o fwriad entrepreneuraidd yn arwain o reidrwydd at ddechrau busnesau go iawn. Dangosodd ffigurau gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru fod 42 o fusnesau am bob 10,000 o bobl wedi dechrau yn 2011 o gymharu â 64 yn y DU.[5]

21. Mae cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd ymysg menywod yng Nghymru yn is (6.1 y cant yn 2011) ond yn dal i fod yn uwch na chyfradd y DU o 5.0 y cant ac mae'r gymhareb menywod: dynion o gyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd yn 60 y cant o gymharu â 49 y cant ar gyfer y DU ac i fyny o 45 y cant yn 2010.

22. Mae gan gyfran uwch o bobl ifanc o dan 25 oed ddyheadau i weithio ar eu liwt eu hunain (52 y cant) o gymharu â 39 y cant o'r boblogaeth sy'n gweithio yn gyffredinol (pobl 16 i 64 oed).[6]

23. Mae gan brifysgolion Cymru hanes cryf o entrepreneuriaeth. Cafodd 267 o fusnesau eu dechrau gan raddedigion yn 2010/11 (9.6 y cant o gyfanswm y DU, sydd bron yn ddwbl yr hyn a fyddai'n ddisgwyliedig o ystyried maint y sector). Mae tua 10 y cant o gyfanswm y busnesau sy'n cael eu dechrau gan raddedigion yn y DU sy'n goroesi am dair blynedd a mwy wedi'u lleoli yng Nghymru. Unwaith eto, mae hyn ddwywaith cymaint â'r disgwyl o ystyried canran Cymru o boblogaeth y DU.[7]

24. Y colegau yw'r prif ddarparwyr ym maes addysg entrepreneuraidd yng Nghymru. Cytunai 53 y cant o fyfyrwyr addysg bellach Cymru mai eu coleg a oedd wedi'u hannog i feddwl am fenter, o gymharu â 37 y cant ledled y DU.[8]

25. Aethom ati i gwestiynu'r tueddiadau hyn gyda thystion trwy gydol yr ymchwiliad. Gallai fod nifer o ffactorau gwaelodol, er mai un farn

---

[4] Monitor Entrepreneuriaeth y Byd, Adroddiad y DU 2011
[5] Tystiolaeth ysgrifenedig Ffederasiwn y Busnesau Bach tudalen 3, yn dyfynnu ffigurau StatsCymru
[6] Arolwg Omnibws Cymru 2011
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig Addysg Uwch Cymru paragraff 2
[8] Tystiolaeth ysgrifenedig ColegauCymru paragraff 11

oedd bod ystyriaethau ariannol yn tueddu i sbarduno diddordeb mewn entrepreneuriaeth: mae pobl ifanc yn gweld entrepreneuriaeth fel modd o sicrhau cyflogaeth yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Credid hefyd fod pobl ifanc yn cael eu dylanwadu gan raglenni teledu fel *The Apprentice* a *Dragons' Den*.[9] Ond ar yr un pryd, clywsom fod dyledion cynyddol ac awydd i osgoi risg yn gwthio pobl ifanc tuag at yrfaoedd diogel a saff.[10]

26. Dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach:

> "Very often, those studying business in school and college tend to be overly cautious and lack ideas and originality. They also spend too much time on presentations, so the companies that they launch tend to be a little safe. It may come as no surprise that those studying art and design subjects tend to be more creative, tend to have a more can-do attitude and are more prepared to make mistakes."[11]

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r diffyg cysylltiad rhwng lefel y diddordeb a'r awydd am entrepreneuriaeth ymysg yr ifanc a nifer gwirioneddol y busnesau a gaiff eu dechrau gan bobl ifanc, a darganfod beth yw'r ffordd orau o gau'r bwlch hwnnw.**

### Monitro a gwerthuso

27. Roedd canfyddiad cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr i'n galwad am dystiolaeth ei bod hi'n anodd mesur effeithiolrwydd Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, yn bennaf oherwydd y gwahaniaeth amser rhwng ymyriadau a busnesau sy'n dechrau o ganlyniad iddynt, ac oherwydd nad yw'n eglur a ellid priodoli canlyniadau'n uniongyrchol i ymyriadau.

28. Er ei fod yn croesawu'r ffaith fod cynllun gweithredu'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid yn cynnwys targedau a systemau ar gyfer llunio adroddiadau blynyddol, dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach fod anghysonderau a gwrthddywediadau yn y modd y caiff cynnydd yn

---

[9] Cofnod y Trafodion paragraff 74, 20 Mehefin 2013 (am)
[10] Simon Gibson, Prif Weithredwr Wesley Clover ac un o Ymddiriedolwyr Gwreiddiol Sefydliad Alactrity, gweler Atodiad B
[11] Cofnod y Trafodion paragraff 126, 20 Mehefin 2013 (am)

erbyn y targedau, cerrig milltir ac allbynnau eu cyflwyno yn adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthym hefyd:

> "There is an issue of not only how we are presenting progress, but also the kinds of things that are being measured. For instance, I wonder if sometimes we are in danger of measuring what is easy to measure. So, the number of activities provided, the number of people who took part and the number of people who visited websites are all quite tangible and easy to measure. It would be more useful to find out something qualitative: to find out the outcomes and the difference made as a result of those activities."[12]

29. Awgrymodd Ffederasiwn y Busnesau Bach felly mai'r hyn y dylid ei fesur oedd ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei darparu ac ai dyma a oedd ei angen ar bobl ifanc ar y pryd; a oedd y wybodaeth honno'n arwain at ddechrau busnes ac os nad oedd, pam; pa wahaniaeth a wnaeth; pa sgiliau sylfaenol a ddysgwyd yn y broses; a pha newidiadau yr oedd pobl ifanc am eu gweld yn y wybodaeth a'r cymorth a gâi eu darparu.

30. Dadleuodd nifer o ymatebwyr eraill[13] y dylai'r dull o werthuso gweithgarwch entrepreneuraidd sy'n codi o gynlluniau'r Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid fod yn fwy hydredol ac nad oedd mesur effaith drwy nifer y busnesau newydd yn unig yn rhoi darlun llawn, er enghraifft, y budd i fywydau gweithwyr cyffredin a'r budd cronnol ehangach i gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi.

31. Dywedodd UnLtd[14]:

> "How many young people are coming through, and the engagement of the young people as customers and the engagement of the businesspeople who are sustaining them are the things that we should be looking to promote, not necessarily schemes that are seen to produce good businesses."[15]

---

[12] Cofnod y Trafodion paragraff 137, 20 Mehefin 2013 (am)
[13] Cofnod y Trafodion paragraff 194, 20 Mehefin 2013 (pm)
[14] Sefydliad ar gyfer cefnogi unigolion sy'n entrepreneuriaid cymdeithasol yw UnLtd
[15] Cofnod y Trafodion paragraff 164, 12 Mehefin 2013

32. Cawsom ein calonogi felly wrth glywed gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg fod Llywodraeth Cymru yn dechrau edrych ar system i olrhain cynnydd pobl ifanc.[16]

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru weithio i wella cysondeb y data sydd ar gael ar entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc, a monitro a gwerthuso'n drylwyr y cynnydd a wneir a'i gymharu â gwledydd eraill. Dylid ceisio casglu rhagor o wybodaeth sy'n ymwneud â chanlyniadau, fel effaith entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc ar economi Cymru yn ehangach, ac olrhain cynnydd pobl ifanc yn yr hirdymor yn dilyn addysg mentergarwch, gan gynnwys rhannu'r wybodaeth yn ôl y rhywiau.**

[16] Cofnod y Trafodion paragraff 149, 10 Gorffennaf 2013

## Yr Ysbryd Entrepreneuraidd

"You are born with certain elements of entrepreneurialism, and others are taught"[17]

33. Pwnc ein hymchwiliad oedd entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc. I ni, roedd hynny'n golygu canolbwyntio ar yr unigolyn ifanc yn hytrach nag ar "fenter", sy'n awgrymu diffiniad o'r endid busnes.

34. Fel y tystiodd ein trafodaeth bwrdd crwn ag aelodau o Glwb Menter Sir y Fflint,[18] mae'n bwysig edrych yn ehangach ar entrepreneuriaeth hefyd: mae llawer o bobl ifanc yn mentro ym meysydd cerddoriaeth a diwylliant, yn ogystal â'r sector diwydiant uwch-dechnoleg.

35. Dywedodd A LEAP[19] y dylem wneud y canlynol:

> "Look at enterprise in the wider sense of people going out there, shaping their communities and being active in their communities. Wales has a very rich heritage and a lot of advantages in that respect."[20]

36. Dywedodd Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru:

> "It is not just about starting a business; it is about making young people more entrepreneurial…it is about making them more rounded individuals, so that they can bring something back to the Welsh economy, whether that is through a business start-up, which would be fantastic, or just through being enterprising within an industry."[21]

37. Rydym yn cytuno bod gweithwyr creadigol ac arloesol yn bwysig i gwmni neu sefydliad - "intrapreneuriaeth" fel y'i gelwid gan rai o'r tystion.[22] Cawsom ein calonogi felly gan sylw'r Dirprwy Weinidog:

---

[17] Dale Williams, Cyfarwyddwr Yolk Recruitment, Cofnod y Trafodion paragraff 193, 12 Mehefin 2013
[18] Gweler Atodiad C
[19] Partneriaeth cyfnewid dysgu di-elw yw A LEAP sy'n helpu pobl ifanc i ddatblygu eu prosiectau cymunedol, eu busnesau a'u hymgyrchoedd eu hunain
[20] Cofnod y Trafodion paragraff 70, 12 Mehefin
[21] Cofnod y Trafodion paragraff 188, 20 Mehefin 2013 (pm)
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig ColegauCymru paragraff 5

> "Entrepreneurialism is not just about start-ups. I prefer a very modern definition of the entrepreneur as an innovator who uses a process of shattering the status quo of existing products and services to set up new products and services. So, in my view, an entrepreneur can be accommodated anywhere, including in isolation as a business start-up. You can be an innovator - an entrepreneur - in a large company, in the civil service or anywhere in the public service or general life."[23]

38. Yn ystod yr ymchwiliad, daeth yn amlwg fod entrepreneuriaeth yn gallu wynebu rhwystrau sylweddol. Roedd llawer o'r problemau'n ymwneud â pharch, yn debyg i'r rhai a wynebwyd gennym yn ystod ein hymchwiliad, Prentisiaethau yng Nghymru, er nad oeddynt mor ddifrifol o bosibl.[24] Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg at y rhain fel rhwystrau diwylliannol, megis y canlynol:

> "Attitudes towards business, problems with attitudes to gender, attitudes towards innovation, and vocational learning."[25]

39. Nid yw'n ymddangos bod cefndir teuluol yn cael ei ystyried yn ddylanwad mor ddiffiniol ag y bu yn y gorffennol o bosibl. Dywedodd y Canolfannau Entrepreneuriaeth Rhanbarthol fod entrepreneuriaid ifanc yn dod o gefndiroedd mwy amrywiol nag a welwyd yn draddodiadol. Fodd bynnag, ystyrid ei bod yn bwysig iawn sianelu'r ysbryd entrepreneuraidd. Clywsom hanes un myfyriwr ifanc:

> "Who used to come in to sell eggs every week. They found that he was stealing the eggs, but he actually made a tidy little profit every week. So, the teacher made him the chief banker at the school, and he would collect all the money from the students who were saving. He now trains the other bankers. So, that shows his enthusiasm and drive and that he is being shown the right direction. It is about showing them the right road, but still encouraging that entrepreneurial spirit."[26]

40. Hefyd, nid oedd rhyw'r unigolyn fel pe bai'n gymaint o rwystr ag a welsom yn ystod ein hymchwiliad i Brentisiaethau. Yn bendant, nid oedd cymaint o fenywod â dynion ymysg y graddedigion uwch-dechnoleg ar y rhaglen Alacrity yr ymwelsom â hi, ac ystyrir yn

---

[23] Cofnod y Trafodion paragraff 10, 10 Gorffennaf 2013
[24] Prentisiaethau yng Nghymru, Y Pwyllgor Menter a Busnes, Hydref 2012
[25] Cofnod y Trafodion paragraff 11, 10 Gorffennaf 2013
[26] Cofnod y Trafodion paragraff 177, 20 Mehefin 2013 (pm)

gyffredinol nad oes cymaint o fenywod â dynion yn y diwydiannau technoleg drwyddi draw. Ond dywedodd UnLtd bod y rhaniad tua 50:50 mewn gwirionedd, a bod cynrychiolaeth dda o fenywod a rhaniad teg rhwng y rhywiau, heb fod y naill ryw na'r llall yn tra-arglwyddiaethu.[27] Dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg hefyd fod ffigurau Twf Swyddi Cymru o fusnesau newydd yn awgrymu bod y cydbwysedd rhwng menywod a dynion sy'n dechrau busnes fwy neu lai'n 50:50.[28] Mae un cwestiwn yn dal i godi o ran y math o fusnesau y mae menywod a dynion yn eu dechrau, ond heb system i olrhain entrepreneuriaid ifanc, ni cheir tystiolaeth empirig ar hyn. Dyma pam yr argymhellwyd y dylid casglu data ar sail rhyw ym mharagraff 32 uchod.

41. Ymddengys mai'r rhwystr mwyaf y daethom ar ei draws i entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yw'r diwylliant sydd ynghlwm wrth entrepreneuriaeth. Dywedodd un o'r Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Busnes:

> "In America, if someone fails and then succeeds, they are hailed as an entrepreneur champion. However, over here, if someone fails, they are barely given a second chance. This is where we hit a block every single time. People want to set up a business, they are keen, and they have the skills sets to do it, but they are so afraid of what mum and dad, or Joe down the road, will say when they say, 'I want to do it'. I know from personal experience that, when I decided to take the leap of faith, I had floods of people telling me to get real, to go to get a proper job, and to stop being crazy. Nowadays, they do not say that; once you are successful, they say, 'It's all right for some'."[29]

42. Mae'n amlwg fod angen meddwl yn wahanol ynglŷn â risg a "methiant". Dywedodd UnLtd:

> "Failure is not always necessarily a bad thing. We should be encouraging people to learn from their mistakes and to make those mistakes at an early age, which gives them a good grounding for their better understanding in the future.[…]. so that the next time that you have a crack at a new venture, you

[27] Cofnod y Trafodion paragraff 100, 12 Mehefin 2013
[28] Cofnod y Trafodion paragraff 115, 10 Gorffennaf 2013
[29] Cofnod y Trafodion paragraff 23, 26 Mehefin 2013

have overcome all of those pitfalls and.[…].you have had to learn the hard way."[30]

43. Dywedodd Neil Cocker, Rheolwr Gyfarwyddwr Dizzyjam, platfform e-fasnach a marsiandïaeth yng Nghaerdydd:

> "If there is ever a time for you in your life - you are living with three other people, your rent is, like, £7 a week, you can live on baked beans; go and make mistakes, go and learn."[31]

44. Crynhodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg hyn drwy ddyfynnu cwmni Google: "business failure is not personal failure, but if you are going to fail, fail fast".[32]

45. Dywedodd un o'r entrepreneuriaid ifanc yn ein fideo mai argyhoeddi pobl ifanc y gallant sefydlu busnes yw un o'r pethau pwysicaf.[33] Cafodd y farn hon ei hadleisio gan y mentoriaid a'r cynghorwyr y buom ni'n siarad â hwy ar ein hymweliad â Chlwb Menter Sir y Fflint. Clywsom mai egni, ysgogiad, brwdfrydedd ac ysfa i lwyddo oedd y cynhwysion allweddol.

46. Mae magu hyder ac ysgogiad personol yn rhan bwysig o ddiffinio entrepreneuriaid ifanc llwyddiannus. Athroniaeth Dale Williams, Cyfarwyddwr Yolk Recruitment, oedd datblygu cysylltiadau â phobl er mwyn creu cyfleoedd.

> "I will never not take a phone call to my office. If you try to ring me to sell anything, you will speak to me. I speak to everybody, because I never know what the opportunity will be. I do not understand people who block lines of communication, because you never know where the caller might be in future. You do not want to sever ties with people, because everybody is trying to progress in their careers; they could be an influential decision maker in future, and suddenly you have your tail between your legs when you are pitching for their business a few years later because you were rude to them on the phone. I think that you should treat everybody equally, network and meet as many

---

[30] Cofnod y Trafodion paragraff 124, 12 Mehefin 2013
[31] Cofnod y Trafodion paragraff 43, 12 Mehefin 2013
[32] Cofnod y Trafodion paragraff 12, 10 Gorffennaf 2013
[33] Francesca James, Ymgynghorydd ar Frandio Cyfryngau Cymdeithasu a Rheolwr Gyfarwyddwr Fresh Content Creation, Caerdydd

people as you can. If you do those things every day, things will happen."[34]

**Mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc**

47. Credai sawl tyst fod gan entrepreneuriaeth ran bwysig yn cynorthwyo i fynd i'r afael â diweithdra endemig ymysg pobl ifanc. Nododd Fforwm Dysgu Entrepreneuriaeth Castell-nedd Port Talbot, er enghraifft, yn ei dystiolaeth ysgrifenedig fod bod yn fos arnoch chi'ch hun yn aml yn un ffordd ymarferol allan o ddiweithdra a chymwysterau cyfyngedig, ac y dylid cynnwys entrepreneuriaeth mewn cynlluniau i bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio a rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.[35]

48. O gyfeiriad arall, rhybuddiodd Cefnogi Ymgysylltiad mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant, grŵp amlasiantaethol yn Rhondda Cynon Taf, nad oedd entrepreneuriaeth yn ateb hawdd i broblem diweithdra ymysg pobl ifanc.[36]

49. Dywedodd UnLtd:

> "Culturally or traditionally, there might have been an appetite for employment, but in a climate in which youth unemployment is potentially at an all-time high, encouraging job creators rather than just job takers is not only an important but a crucial task."[37]

50. Dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach:

> "I have noticed over the last few years a new phrase, which is 'forced into self-employment as a result of the recession'; it makes me very sad to hear that. It is almost like saying, 'Oh, I couldn't find a job, so I had no other option but to become self-employed and start my own business.'"[38]

[34] Cofnod y Trafodion paragraff 216, 12 Mehefin 2013
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig Fforwm Dysgu Entrepreneuriaeth Castell-nedd Port Talbot tudalen 3
[36] Tystiolaeth ysgrifenedig Cefnogi Ymgysylltiad mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant tudalen 2
[37] Cofnod y Trafodion paragraff 69, 12 Mehefin 2013
[38] Cofnod y Trafodion paragraff 192, 20 Mehefin (am)

51. Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn chwarae rhan allweddol yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'n cynnal ei Raglen Fenter ei hun, sy'n cynorthwyo pobl ifanc di-waith a rhai 18 i 30 oed sy'n cael eu cyflogi am lai nag 16 awr yr wythnos (ond nid graddedigion na myfyrwyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd) i ddarganfod pa mor ymarferol yw eu syniadau busnes.

52. Nododd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth fod Ymddiriedolaeth y Tywysog yn hollbwysig ar gyfer cyrraedd rhannau o'r boblogaeth na allai'r Llywodraeth eu cyrraedd, a'u hannog i feddwl am ddechrau eu busnesau eu hunain.[39] Hefyd, roedd yn ddiddorol clywed gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg fod cylch gwaith newydd Gyrfa Cymru:

> "Will be to focus very much on the group that we now class as not in education, employment or training. Its work will very much focus on those young people in the deprived areas."[40]

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid newid y diwylliant o amgylch entrepreneuriaeth, a gweithio gyda phartneriaid fel Ymddiriedolaeth y Tywysog i wireddu yn benodol uchelgais pobl ifanc sydd wedi'u hymddieithrio. Gallai Gweinidogion ystyried cynnal cynhadledd flynyddol i bobl ifanc, eu haddysgwyr a'u rhieni, er mwyn iddynt gael eu hysbrydoli gan entrepreneuriaid ifanc llwyddiannus.**

[39] Cofnod y Trafodion paragraff 80, 26 Mehefin 2013
[40] Cofnod y Trafodion paragraff 151, 10 Gorffennaf 2013

## Menter mewn addysg

"There was nothing about enterprise whatsoever.
So, business, to me, was never an option"[41]

**Hyrwyddo entrepreneuriaeth ar oedran cynnar**

53. Mae'r papur ysgrifenedig gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn nodi tair prif ffordd o wneud gweithgarwch menter ac entrepreneuriaeth yn rhan ganolog o bolisi addysg a'r ddarpariaeth addysg: Fframwaith Cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith (11-19); Llwybrau Dysgu (14-19); a Bagloriaeth Cymru.

54. Roedd nifer o'r tystion yn ategu pwysigrwydd gwneud addysg fenter yn ganolog i ddarpariaeth ysgolion. Dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach fod yr adborth a gafodd gan fentoriaid yn nodi:

> "A lot of schools have not really got it yet in terms of entrepreneurship and enterprise. They are still working to older models, where the careers advice is to go to university, get a good degree, try to join a blue-chip company and become successful that way."[42]

55. Ar y llaw arall, dywedodd UnLtd:

> "There is an awful lot of good practice in Wales around entrepreneurship; I believe that there is entrepreneurship work with children as young as five, which is outstanding. The younger that you can sow the seed about entrepreneurship, the better the chance you have of it later in life."[43]

56. Soniodd Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru hefyd am bwysigrwydd cyflwyno addysg fenter mewn ysgolion cynradd:

---

[41] Fideo: Kylie Hearne, Llysgennad Ymddiriedolaeth y Tywysog 2012 a sefydlydd Stardust Boutique yn Sgeti, Abertawe
[42] Cofnod y Trafodion paragraff 192, 20 Mehefin 2013 (am)
[43] Cofnod y Trafodion paragraff 79, 12 Mehefin 2013

> "I believe that you need to instil entrepreneurial skills in very young children. I think that we need to start with primary schools and even registration ages."[44]

57. Roedd Dale Williams yn gwrthwynebu'r farn hon i raddau. Dywedodd fod dechrau gyda phlant 5 neu 6 oed yn rhy ifanc ac y byddai'n well canolbwyntio ar y grŵp oedran 14 i 18:

> "There is a danger of starting too early, too soon, in primary schools, if I am really honest. You still need to enjoy your childhood and find your own way, to some extent, because not everybody wants to be a business person…
>
> "I think that it would be in that window between the ages of 14 and 18, when you decide whether to go to university, to go into the working world or to set up a business. That is where you should concentrate on topics such as these."[45]

58. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Cyngor Sir Ddinbych y dylid gwneud diwylliant o gyfarfod a gweithio gydag entrepreneuriaid lleol yn ganolog i'r sector ysgolion uwchradd o Flwyddyn 7 ymlaen.[46]

59. Roedd hi'n ddiddorol clywed felly gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg y bydd y £4.4m a addawyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ddiweddar yn cynnwys cystadleuaeth i "griwiau mentrus" er mwyn ysbrydoli plant 5 i 11 oed.[47]

60. Roedd pwynt arall a wnaed ynglŷn ag addysg fenter yn ymwneud â diffyg dysgu ymarferol. Ar ein hymweliad â Chlwb Menter Sir y Fflint, clywsom fod aelodau'r Clwb o'r farn bod cyngor ar faterion technegol fel hawliau eiddo deallusol, ffurflenni treth a diogelu data yn fuddiol iawn. Yn ystod ein hymweliad â Sefydliad Alacrity yng Nghasnewydd, dywedodd Simon Gibson, Prif Weithredwr Wesley Clover ac un o Ymddiriedolwyr Gwreiddiol Sefydliad Alacrity, fod diffyg dysgu cymhwysol - sut i werthu, sut i drafod, sut i godi arian - mewn ysgolion busnes traddodiadol, gwaetha'r modd. Dymunai weld Academi

---

[44] Cofnod y Trafodion paragraff 128, 20 Mehefin 2013 (pm)
[45] Cofnod y Trafodion paragraffau 252 a 254, 20 Mehefin 2013 (am)
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Sir Ddinbych tudalen 1
[47] Cofnod y Trafodion paragraff 29, 10 Gorffennaf 2013

Gwerthu Genedlaethol yn cael ei sefydlu i drawsnewid tirlun busnes Cymru.[48]

61. Dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach fod ei ymchwil wedi dangos:

> "While young people are really enjoying enterprise education, sometimes, at the end of that, there is a gap, not necessarily in the theoretical side of things, but in the practicalities of, 'How does this mean that I can go ahead to set up my own business?' Young people said that they wanted specific information about tax law and employment legislation: the stuff that gives them the actual, practical knowledge to start the process."[49]

### Gwneud entrepreneuriaeth yn ganolog i addysg bellach ac addysg uwch

62. Clywsom am y cyfleoedd di-ri i gefnogi entrepreneuriaeth mewn addysg bellach ac addysg uwch. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, soniodd Prifysgol De Cymru fod 65 y cant o'i myfyrwyr wedi cael hyfforddiant mewn sgiliau entrepreneuriaeth fel rhan o weithgarwch y cwricwlwm mewnol.[50]

63. Ond dywedodd Ffederasiwn y Busnesau Bach:

> "According to our recent research with the focus group of higher education students, university careers services are not necessarily presenting [enterprise] as a realistic option."[51]

64. Dywedodd Kieran Owens, entrepreneur ifanc a gymerodd ran yn ein fideo ac a roddodd dystiolaeth ar lafar:

> "There is lots of support available, especially in colleges. I went to Yale College in Wrexham and the support there was fantastic, but when I moved to university, it was a bit more difficult to find."[52]

65. Roedd diddordeb gennym yn awgrym Addysg Uwch Cymru y dylid darparu amgylchedd mwy cefnogol i fusnesau dyfu ac ehangu o fewn y

---

[48] Gweler Atodiad B
[49] Cofnod y Trafodion paragraff 171, 20 Mehefin 2013 (am)
[50] Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol De Cymru paragraff 1.2
[51] Cofnod y Trafodion paragraff 171, 20 Mehefin 2013 (am)
[52] Cofnod y Trafodion paragraff 162, 20 Mehefin 2013 (am)

brifysgol, yn cynnwys mannau deori neu ddatblygu, a'r cynnig y gellid defnyddio siopau a swyddfeydd gwag yng nghanol trefi i'r dibenion hynny.[53] Ar ein hymweliad â Sefydliad Alacrity yng Nghasnewydd, pwysleisiodd y myfyrwyr bwysigrwydd cyfnodau deori o hyd at ddeunaw mis er mwyn gwneud gwahaniaeth go iawn.

66. Gwnaeth Addysg Uwch Cymru a ColegauCymru y pwynt allweddol, fodd bynnag, nad oes gan bob aelod o'r staff dysgu y sgiliau i hyrwyddo entrepreneuriaeth.[54] Rydym felly'n croesawu'r Ganolfan Datblygu Proffesiynol Parhaus ar gyfer Cymru, dan arweiniad Prifysgol De Cymru, a fydd yn darparu dull Cymru gyfan o ddatblygu addysgu a dysgu entrepreneuriaeth dros gyfnod o dair blynedd.

67. Clywsom hefyd gan ColegauCymru fod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru wedi'i brif-ffrydio o fewn y cwricwlwm ac o 2015 ymlaen, pan fydd y cymhwyster newydd yn orfodol, bydd sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth yn rhan hanfodol o addysg graidd myfyrwyr.[55]

**Mentrau cymdeithasol**

68. Dadleuodd A LEAP nad yr hyn a bortreadir ar *Dragons' Den* a *The Apprentice* yn unig yw entrepreneuriaeth ond bod amryw o wahanol fathau o fenter, ac yn bwysig, nad oes unrhyw feysydd lle ceir *diffyg* menter.[56]

69. Dywedodd UnLtd ei fod yn hybu model busnes sy'n cynnwys agwedd adeiladol yn gymdeithasol ar y gymuned leol, yn hytrach na gwneud elw a'i ail-fuddsoddi yn y gymuned leol, sy'n ddau beth cynnil o wahanol. Trwy ddatblygu eu syniadau a'u sgiliau dysgu menter, eglurodd y gallai pobl ifanc greu busnesau:

> "That could have environmental as well as social impact, and potentially even utilise the language skills that we have in this country. There is no wider viewpoint in that sense. There clearly still is a gap that is not being filled."[57]

70. Roedd Menter yr Ifanc yn hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol hefyd:

[53] Cofnod y Trafodion paragraff 271, 20 Mehefin 2013 (pm)
[54] Cofnod y Trafodion paragraff 319, 20 Mehefin 2013 (am)
[55] Cofnod y Trafodion paragraff 260, 20 Mehefin 2013 (am)
[56] Cofnod y Trafodion paragraff 181, 12 Mehefin 2013
[57] Cofnod y Trafodion paragraff 162, 12 Mehefin 2013

> "Young people taking social responsibility for an issue in their community, taking responsibility to create lasting and positive change, is a fantastic opportunity. The more we can introduce that in the Welsh Baccalaureate and drive that forward, the better. However, to start with, we all need to be on the same page about what that means."[58]

71. Roedd hi'n amlwg fod gan bobl wahanol ganfyddiadau ynglŷn â'r mater hwn. Dywedodd Dale Williams:

> "I think that you can be enterprising in different ways, but, personally, I would say that the pinnacle of entrepreneurship is financial."[59]

72. Rydym yn cytuno fod entrepreneuriaeth yn ymestyn y tu hwnt i ddechrau busnesau a gweithgarwch gwneud elw masnachol traddodiadol yn unig, a'i fod yn cwmpasu menter gymdeithasol.

73. Credwn fod yn rhaid sefydlu entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaeth gymdeithasol yn rhan ganolog o addysg a dysgu pobl ifanc, a gorau po gyntaf.

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod entrepreneuriaeth ac entrepreneuriaeth gymdeithasol yn rhan annatod o'r cwricwlwm mewn addysg gynradd, addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yn hytrach nag yn rhywbeth sydd wedi'i ychwanegu ar y diwedd, gan osod sgiliau mentergarwch wrth galon y system addysg yng Nghymru. Dylai hefyd ystyried sut y mae modd hyrwyddo entrepreneuriaeth ymhellach, a'i brif ffrydio yng Nghymhwyster diwygiedig Bagloriaeth Cymru.**

---

[58] Cofnod y Trafodion paragraff 115, 20 Mehefin 2013 (am)
[59] Cofnod y Trafodion paragraff 226, 12 Mehefin 2013

# Cyfeirio

"It is a minefield out there…an absolute maze"[60]

74. Mynegodd llawer o'r tystion bryderon ynglŷn â'r diffyg eglurder mewn perthynas â'r opsiynau a'r llwybrau sydd ar gael i bobl ifanc. Galwodd sawl tyst am siop un stop ar gyfer cyfeirio pobl ifanc at gyngor ac arweiniad cychwynnol, a phwysigrwydd datblygu map eglur sy'n nodi'n glir yr opsiynau amrywiol sydd ar gael iddynt.

75. Awgrymodd un o'r entrepreneuriaid ifanc a gafodd ei gyfweld ar gyfer ein fideo:

> "[Merging] everything into one, single organisation so people know in Wales where exactly to go to for money, support, funding, advice."[61]

76. Dywedodd Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru ei bod yn mynd i ymgymryd â'r swyddogaeth o fod yn siop un stop ei hun.[62] Roedd Clwb Menter Sir y Fflint hefyd i'w weld yn cyflawni'r swyddogaeth honno ar gyfer y gogledd-ddwyrain.[63] Credwn fod rhinweddau mewn cyflwyno'r ddau ddull drwy Gymru, ond mae angen eglurder a dealltwriaeth gyffredinol ynglŷn â phwy sy'n cyflawni'r swyddogaeth honno mewn ardaloedd gwahanol.

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu pwy ddylai ymgymryd â'r rôl o ddarparu porth cyngor a chyfarwyddyd canolog ar gyfer entrepreneuriaid ifanc a darpar entrepreneuriaid ifanc, a datblygu cynllun o ran yr opsiynau sydd ar gael, ac yna gweithio i sefydlu'r canolfannau hynny ledled Cymru.**

### Swyddogaeth Gyrfa Cymru

77. Mae gan Gyrfa Cymry (Dewis Gyrfa) swyddogaeth sylweddol yn y gwaith o ddarparu Cynllun Gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth

[60] Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru, Cofnod y Trafodion paragraff 170, 20 Mehefin 2013 (pm)
[61] Fideo: Carwyn Williams, Perchennog Café Espresso, Castell-nedd, Cofnod y Trafodion paragraff 31, 12 Mehefin 2013
[62] Cofnod y Trafodion paragraff 172, 20 Mehefin 2013 (pm)
[63] Gweler Atodiad C

Ieuenctid Llywodraeth Cymru. Ar 1 Ebrill 2013, daeth Gyrfa Cymru yn is-gorff sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Llywodraeth mai dyma gychwyn ar wasanaeth mwy cydgysylltiedig wedi'i adnewyddu a'i adfywio.[64] Gyrfa Cymru unedig bellach yw cyfrwng Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd a gweithgarwch partneriaeth rhwng addysg a busnes.

78. Cyfeiriai cyflwyniad ysgrifenedig Gyrfa Cymru at ei Gynllun Busnes ar gyfer 2013-14 a'r ffaith fod pwyslais ei gylch gwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd oddi wrth ddarparu cyfleoedd a gweithgareddau mewn ysgolion a cholegau tuag at ymgysylltiad gweithredol cyffredinol â chyflogwyr a hwyluso rhaglen yrfaoedd a'r byd gwaith yn effeithiol mewn ysgolion/colegau.[65] O ganlyniad i'r newid hwn, ni fydd Gyrfa Cymru yn ymwneud mwyach â chyllido sefydliadau fel Menter yr Ifanc yn uniongyrchol ar gyfer darparu gweithgareddau mewn ysgolion a cholegau.

79. Dywedodd Menter yr Ifanc fod tynnu'r cyllid hwn yn ôl (£100,000 yn 2012-13, i lawr o £126,000 yn 2011-12) bellach yn peryglu'r momentwm a gafwyd o gynyddu niferoedd y bobl ifanc a gafodd gyfle i ddechrau eu busnesau eu hunain a chyflawni Cynllun Gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru ei hun.[66]

80. Gwrthwynebodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg y ddadl hon ddrwy ddweud mai lle Menter yr Ifanc oedd profi ei gwerth yn y farchnad, am fod eraill yn darparu'r math hwn o hyfforddiant. Dywedodd hefyd fod moderneiddio Gyrfa Cymru yn gwbl hanfodol.[67]

81. Er gwaethaf ein cwestiynau i'r Dirprwy Weinidog, rydym yn parhau'n ansicr o sail resymegol Llywodraeth Cymru dros dynnu cyllid Menter yr Ifanc yn ôl.[68] Mae penderfyniad y Llywodraeth yn cyferbynnu'n llwyr â chanfyddiadau gwerthusiad Prifysgol Kingston y cyfeiriwyd ato yn nhystiolaeth ysgrifenedig Menter yr Ifanc, a ddaeth i'r casgliad fod Menter yr Ifanc wedi cyfrannu at gymdeithas a'r economi ehangach, a bod ei gyn-fyfyrwyr gryn dipyn yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn rhedeg eu busnesau eu hunain, o fod yn

---

[64] Datganiad Newyddion Llywodraeth Cymru, 16 Ebrill 2013
[65] Tystiolaeth ysgrifenedig Gyrfa Cymru tudalen 3
[66] Cofnod y Trafodion paragraff 13, 20 Mehefin 2013 (am)
[67] Cofnod y Trafodion paragraffau 40-41, 10 Gorffennaf 2013
[68] Cofnod y Trafodion paragraffau 39-57, 10 Gorffennaf 2013

entrepreneuriaid cyfresol, ac o ddangos gwydnwch i oresgyn dirywiad economaidd.[69]

82. Mynegodd Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol y De-orllewin bryderon ynglŷn â dyfodol rhai o'r cynlluniau a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru ar gyfer colegau ac ysgolion.[70]

83. Dywedodd Gyrfa Cymru nad oedd yn syndod ganddo glywed pryderon y tystion eraill. Rhagwelai ostyngiad tymor byr yn y ddarpariaeth hyd nes y gallai ddatblygu momentwm a gallu mewn ysgolion, a datblygu ymgysylltiad â chyflogwyr, ond nid oedd yn rhannu'r pryder y byddai ei strategaeth hirdymor yn dioddef.[71]

84. Cadarnhaodd y swyddog Llywodraeth Cymru a roddodd dystiolaeth ar lafar gyda Gyrfa Cymru fod cyllideb Gyrfa Cymru wedi gostwng o £36m i £30m yn 2012-13. Pwysleisiodd mai busnes craidd Gyrfa Cymru yw darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar yrfaoedd, ond cyfrifoldeb y cwricwlwm oedd menter wedi bod erioed, er yn gyfrifoldeb roedd Gyrfa Cymru wedi'i gefnogi'n draddodiadol.[72]

85. Rydym yn bryderus ynglŷn â'r modd y bydd y newid i gylch gwaith Gyrfa Cymru yn effeithio yn y tymor byr ar ddarparu ac ariannu gweithgareddau entrepreneuraidd yn uniongyrchol. Roeddem yn bryderus i glywed, er enghraifft, nad yw'n ymddangos bod Gyrfa Cymru na Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effeithiolrwydd cynlluniau Menter yr Ifanc.[73] Rydym yn bryderus hefyd ynglŷn â'r modd y mae Gyrfa Cymru yn gwerthuso llwyddiant ei weithgareddau hyrwyddo entrepreneuriaeth o ystyried ein bod wedi clywed nad yw'n olrhain cynnydd pobl ifanc,[74] sef y rheswm pam y gwnaethom yr argymhelliad ym mharagraff 32 uchod.

**Argymhellion:**

**Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi eglurhad o'r asesiad a wnaeth o effeithiolrwydd Menter yr Ifanc, cyn i arian y fenter gael ei dynnu yn ôl.**

[69] Tystiolaeth ysgrifenedig Menter i'r Ifanc tudalennau 4 a 6
[70] Cofnod y Trafodion paragraff 60, 20 Mehefin 2013 (pm)
[71] Cofnod y Trafodion paragraffau 16, 29 a 48, 20 Mehefin 2013 (pm)
[72] Cofnod y Trafodion paragraffau 21 a 57, 20 Mehefin 2013 (pm)
[73] Cofnod y Trafodion paragraffau 42-53, 10 Gorffennaf 2013
[74] Cofnod y Trafodion paragraffau 40-44, 20 Mehefin 2013 (pm)

**Dylai Llywodraeth Cymru fonitro ac adolygu effaith y newid i gylch gwaith Gyrfa Cymru a'r lleihad tymor byr a ragwelir yn y ddarpariaeth o weithgareddau entrepreneuriaeth i bobl ifanc, a chyhoeddi ei chanfyddiadau mewn adroddiad ar weithrediadau Gyrfa Cymru yn ei flwyddyn gyntaf.**

## Cyllid a chymorth

> "It is like a treasure hunt online to try to find out what you've got to do and when you've got to do it"[75]

86. Nododd sawl tyst, yn cynnwys Ymddiriedolaeth y Tywysog, yr holl wybodaeth ddryslyd a'r rhestr gynyddol o gymorth sydd ar gael i entrepreneuriaid ifanc.[76] Nododd yr Ymddiriedolaeth y gallai'r cynlluniau niferus sy'n gorgyffwrdd ei gwneud hi'n anodd cydlynu'r broses o ddarparu cymorth i bobl ifanc gan arwain hyd yn oed at gystadlu rhwng sefydliadau.

87. Soniodd yr Ymddiriedolaeth hefyd am anghysonderau yn rhai o fentrau a chynlluniau cymorth ariannol Llywodraeth y DU sy'n effeithio ar effeithiolrwydd y dulliau o hyrwyddo entrepreneuriaeth yng Nghymru, gan achosi dryswch ynglŷn â chymhwysedd pobl ifanc i gael cymorth. Er enghraifft, ni chaiff unigolyn ifanc ar y Rhaglen Waith ddilyn Rhaglen Fenter Ymddiriedolaeth y Tywysog:

> "The Prince's Trust regularly receives inquiries from young people who are on the Work Programme asking if they can engage on the Enterprise Programme. If we accepted them on to the programme, because we do not have a Work Programme sub contractor agreement in place we cannot access any other funding for them. This means there are some young people, including those leaving prison, who are not able to explore their entrepreneurship ambitions."[77]

88. Dywedodd Menter yr Ifanc:

> "We are in a world where resources are finite and they are smaller all of the time, so we need to make better use of that by coming together, so that we are not having duplication of these various funds or services. Also, we need to come at it very much from a conciliatory point of view in terms of being partners and accepting that people have different strengths."[78]

---

[75] Fideo: Francesca James, Ymgynghorydd ar Frandio Cyfryngau Cymdeithasu a Rheolwr Gyfarwyddwr Fresh Content Creation, Caerdydd
[76] Cofnod y Trafodion paragraff 59, 20 Mehefin 2013 (am)
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig Ymddiriedolaeth y Tywysog paragraff 18
[78] Cofnod y Trafodion paragraff 68, 20 Mehefin 2013 (am)

89. Oherwydd y llu o fentrau sydd ar gael, dywedodd Gyrfa Cymru fod yn rhaid wrth ddull amlasiantaethol o gyflawni'r gwaith.[79]

90. Roedd A LEAP eisiau gweld plant a phobl ifanc yn cymryd mwy o ran yn y gwaith o lunio'r rhaglenni menter a ddarperir.[80]

91. O ran digonolrwydd y systemau cyllid sydd ar waith, cyfeiriodd UnLtd at natur wangalon y diwylliant dibynnol ar grantiau a bod gan y sefydliad ddull tair haen o gyllido: rhoi cynnig arni, gweithredu a datblygu.[81]

92. Pan ymwelsom â Sefydliad Alacrity yng Nghasnewydd, pwysleisiodd Simon Gibson nad oedd cyfalaf i weithgarwch dechrau busnes yn broblem, ond roedd diffyg parhad o ran buddsoddi i alluogi'r mentrau hynny i ddatblygu a thyfu.[82]

93. Roedd Prifysgol Caerdydd hefyd yn cefnogi system i roi cymorth fesul haen neu gam, a dadleuent fod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y Fwrsariaeth Dechrau Busnes i Raddedigion, sy'n galw am amcangyfrif o tua£80,000+ o drosiant ym Mlwyddyn 1 ynghyd â thwf rhagamcanol o 20 y cant o un flwyddyn i'r llall dros y tair blynedd gyntaf, yn afrealistig.[83]

94. Mewn tystiolaeth ar lafar, cyfeiriodd Addysg Uwch Cymru at ddiffyg cefnogaeth ariannol i entrepreneuriaid ifanc sy'n dal yn fyfyrwyr.[84] Aethom ati i godi hyn gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg. Ei ymateb oedd bod yn rhaid blaenoriaethu cyllid ac y dylai'r bwrsariaethau hynny sicrhau bod pobl nad ydynt mewn sefydliadau addysg uwch yn cael cyfle i ystyried materion busnes a datblygu eu busnesau.[85]

95. Mater arall a ddaeth i'n sylw ynglŷn â'r cymorth sy'n cael ei roi oedd nad oedd cefnogaeth dda i gystadleuaeth rhwng mentrau. Dywedodd Dale Williams:

> "We have brought millions of pounds to the economy, but, because we were not very sexy or exciting as a business

[79] Cofnod y Trafodion paragraff 31, 20 Mehefin 2013 (pm)
[80] Cofnod y Trafodion paragraff 83, 12 Mehefin 2013
[81] Cofnod y Trafodion paragraff 129, 12 Mehefin 2013
[82] Gweler Atodiad B
[83] Tystiolaeth ysgrifenedig Prifysgol Caerdydd tudalen 3
[84] Cofnod y Trafodion paragraff 243, 20 Mehefin 2013 (am)
[85] Cofnod y Trafodion paragraff 104, 10 Gorffennaf 2013

> because it was something that was already being done, there was little interest, help or support."[86]

96. Gan barhau â'r thema ddaearyddol, mater allweddol a gododd o'r dystiolaeth oedd yr amrywio o ran y cymorth a oedd ar gael i bobl ifanc mewn gwahanol rannau o Gymru: gwelsom fod systemau gwahanol o grantiau yn gallu bodoli, hyd yn oed o fewn yr un ardal.[87] Credwn fod angen agwedd fwy cydgysylltiedig tuag at gefnogi mentrau sy'n dechrau a'u twf a'u datblygiad, a chysondeb o ran sicrhau bod y cymorth hwnnw ar gael ledled Cymru.

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r amrywiaeth o gynlluniau sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc sy'n sefydlu eu busnesau eu hunain. Mae hyn yn cynnwys darparu rhagor o gyfleusterau deori busnesau, a chyda phartneriaid — gan gynnwys Menter yr Ifanc ac Ymddiriedolaeth y Tywysog — amlinellu eu rôl ar gyfer y dyfodol yn strategol a daearyddol o ran darparu'r Cynllun Gweithredu IE, gweithgarwch mentergarwch o fewn Bagloriaeth Cymru ac unrhyw arian cymesurol.**

---

[86] Cofnod y Trafodion paragraff 211, 12 Mehefin 2013
[87] Fideo: Siân Jones, Swyddog Menter Sir y Fflint, Fflint

## Y Cyd-destun Rhanbarthol

> "I don't think it necessarily has to be where you are,
> it just has to be openness to the people around you.
> I think you need to have those positive influences"[88]

97. Ymddengys bod gan bobl syniadau gwahanol ynghylch pa mor bwysig yw lleoliad i entrepreneuriaid ifanc. Dywedodd Dale Williams nad oedd yn credu fod lleoliad yn bwysig.[89]

98. Ar y llaw arall, rydym eisoes wedi cyfeirio yn yr adroddiad hwn at yr amrywio o ran y modd y caiff entrepreneuriaeth ei hyrwyddo drwy Gymru.[90]

99. Priodolai Llywodraeth Cymru anghysonder daearyddol i ffactorau megis heriau gwahanol ac ardaloedd gwleidyddol a gweinyddol, a dadleuodd ei bod yn bwysig lleoli gwasanaethau gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn addas er mwyn cyfeirio pobl at y cyfleoedd sy'n bodoli.[91]

100. Yn ein barn ni, mae angen patrwm mwy gwastad i'r ddarpariaeth ledled Cymru ac er mwyn i'r cyngor fod yn gyson o ran ei ansawdd a'i argaeledd.

101. O dan gynllun gweithredu Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru, sefydlwyd chwech o ganolfannau entrepreneuriaeth ieuenctid rhanbarthol ledled Cymru am gyfnod o dair blynedd o 2012 ymlaen. Swyddogaeth y canolfannau, a leolwyd ar safleoedd addysg uwch ac addysg bellach, yw hyrwyddo ac annog gweithgarwch entrepreneuraidd ymysg pobl ifanc, rhoi profiadau ymarferol a'u paratoi ar gyfer dechrau busnesau. Gwnânt hyn drwy gydlynu gwaith cydweithredol ar draws y sefydliadau yn eu hardaloedd. Mae gan bob canolfan sefydliad arweiniol strategol a ddewiswyd drwy broses ymgeisio gystadleuol.

102. Cawsom dystiolaeth o ddwy o'r canolfannau yn ystod ein hymchwiliad – canolfan y Gogledd-orllewin yng Ngholeg Menai Grŵp

[88] Fideo: Gareth Jones, Capten a Chyfarwyddwr Arloesedd Canolfan Arloesi Menter Cymru, Caerffili
[89] Cofnod y Trafodion paragraff 267, 12 Mehefin 2013
[90] Gweler paragraff 94 uchod
[91] Cofnod y Trafodion paragraff 80, 20 Mehefin 2013 (pm)

Llandrillo a chanolfan y De-orllewin yng Ngholeg Gŵyr. Fe'n trawyd gan frwdfrydedd y canolfannau, sy'n bwysig yn ei barn ni i hybu'r gwaith o gyflawni'r mentrau y maent eisoes yn eu cynnal i bobl ifanc mewn addysg bellach ac addysg uwch yn ogystal â myfyrwyr ysgolion cynradd ac uwchradd.[92]

103. Dywedodd y canolfannau fod chwech i naw mis cyntaf eu bodolaeth wedi bod yn gyfnod o ddysgu dwys iddynt, ond eu bod wedi parhau i ganolbwyntio ar helpu pobl ifanc a'u gwneud yn llawer mwy entrepreneuraidd.[93] Er ei bod hi'n ddyddiau cynnar ar y canolfannau, credai Addysg Uwch Cymru fod yr arwyddion yn addawol.[94]

104. Mae potensial y canolfannau newydd wedi creu argraff arnom, er bod angen hyrwyddo a hybu dealltwriaeth o'u rôl yn ehangach yn ein barn ni, yn enwedig y polisi drws agored y clywsom amdano. Rydym wedi awgrymu ym mharagraff 76 uchod y gallai'r canolfannau gyflawni swyddogaeth siopau un stop, o bosibl, ar gyfer rhoi cyngor ac arweiniad i entrepreneuriaid presennol a darpar entrepreneuriaid.

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arferion da sy'n cael eu datblygu gan y Canolfannau Entrepreneuriaeth Rhanbarthol yn cael eu rhannu ledled Cymru, ac y dylid eu hysbysebu'n fwy amlwg yn eu hardaloedd lleol.**

---

[92] Cofnod y Trafodion paragraffau 129-134, 20 Mehefin 2013 (pm)
[93] Cofnod y Trafodion paragraffau 116-117, 20 Mehefin 2013 (pm)
[94] Cofnod y Trafodion paragraff 289, 20 Mehefin 2013 (am)

## Mentora

"Mentoring is really important.
I think everyone should give back what they've learned"[95]

105. Roedd pwysigrwydd mentora yn thema allweddol a gododd o'r ymchwiliad hwn. Dywedodd UnLtd:

> "Recognition that another young person has come from a similar background, perhaps, or been on a similar journey to you, is a much more powerful way of encouraging other young people to think of entrepreneurship, whether it is social, private or otherwise, because of the nature of where they are on their journeys."[96]

106. Ychwanegodd UnLtd:

> "The support provided from a dedicated award manager on a one-to-one basis, the signposting, the networking and, essentially, the enabling role that our development managers played were viewed and valued more highly than the money itself. Money can be gained from a variety of places. Having someone that supports, trusts and enables you to achieve your personal and professional aspirations, I think, is a much rarer find, and it is something that is valued far greater by young people."[97]

107. O ran gwerth cymharol cefnogaeth ariannol yn erbyn cymorth a chyngor personol, credai Dale Williams eu bod yr un mor bwysig â'i gilydd, ond bod cymorth personol yn anos i'w sicrhau na chefnogaeth ariannol. Dale Williams oedd un o'r ychydig dystion a soniodd am bwysigrwydd cael partner busnes yn hytrach na bod yn unig fasnachwr. Ychwanegodd:

> "Identifying somebody who you believe has a different skill set to you to add to a business model and identifying whether or not you can work with them in the long term - two, three or four people going into that business with you with the same

[95] Fideo: Rob Lo Bue, Sefydlydd Applingua yng Nghaerdydd
[96] Cofnod y Trafodion paragraff 133, 12 Mehefin 2013
[97] Cofnod y Trafodion paragraff 119, 12 Mehefin 2013

ambition and motivation at the outset - means that the business will have a stronger chance of survival."[98]

108. Dywedodd Alacrity fod ganddo tua 50 o bobl sy'n rhoi o'u hamser i addysgu a monitro ei raddedigion.[99] Soniodd A LEAP fod rhai ysgolion a phrosiectau ieuenctid yng Nghymru yn gwneud defnydd da o'u cyn-fyfyrwyr drwy eu gwahodd i ddod yn ôl i gefnogi pobl ifanc.[100]

109. Dywedodd un o Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Busnes Llywodraeth Cymru ei fod yn helpu gyda'r gwaith o fentora entrepreneuriaid ifanc yn syml am ei fod yn cael gwefr o wneud hynny.[101] Clywodd aelodau o'n Pwyllgor a ymwelodd â'r Clwb Menter yn Sir y Fflint gan entrepreneuriaid ifanc fod y mentora un i un a gawsant gan bobl fusnes lleol llwyddiannus wedi bod yn werthfawr dros ben.[102]

110. Pwylsieisiodd Dale Williams, fodd bynnag, y gallai mentora fod yn anodd i bobl fusnes:

> "As someone whose time is precious - I am an extremely busy person - there is likelihood that I would perhaps be less available for eight dynamo role model presentations per month for free as opposed to eight presentations if they were, in some way, remunerated. As selfish as that may sound - and I am not a selfish person - I am talking practically about how I use my time."[103]

111. Awgrym Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru oedd cael banc o fentoriaid, a pharu entrepreneuriaid ifanc posibl ag entrepreneur presennol llwyddiannus fel y gallai pobl ifanc gael "angel busnes" ar eu hysgwyddau.[104]

112. Dywedodd A LEAP:

---

98 Cofnod y Trafodion paragraff 262, 12 Mehefin 2013
99 Gweler Atodiad B
100 Cofnod y Trafodion paragraff 135, 12 Mehefin 2013
101 Cofnod y Trafodion paragraff 64, 26 Mehefin 2013
102 Gweler Atodiad C
103 Cofnod y Trafodion paragraff 240, 12 Mehefin 2013
104 Tystiolaeth ysgrifenedig Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru tudalennau 3-4

> "If there is something that is missing, it is that there would be a benefit in the opportunity to access space for.[…].meeting other businesspeople and that sort of thing."[105]

113. Dywedodd Menter yr Ifanc fod Modelau Rôl Dynamo Llywodraeth Cymru yn cynnig darpariaeth sydyn a phendant er bod angen cefnogi a meithrin y rhain drwy ddefnyddio ymyriadau mwy hirdymor.[106] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, argymhellodd Chwarae Teg y dylai fod rhagor o Fodelau Rôl Dynamo o'r sector menter gymdeithasol a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel menywod, grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl.[107]

114. O ystyried y corff o dystiolaeth a gawsom ar bwysigrwydd mentora, rydym yn croesawu cynllun Modelau Rôl Dynamo, er yr hoffem weld rhywbeth wedi'i deilwra'n fwy personol hefyd.

**Argymhelliad:**

**Dylai Llywodraeth Cymru annog a chymell mwy o bobl ifanc i allu dysgu a rhannu sgiliau drwy rwydweithio a mentora, a darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant un-i-un gan ystod fwy amrywiol o fentoriaid.**

---

[105] Cofnod y Trafodion paragraff 82, 12 Mehefin 2013
[106] Cofnod y Trafodion paragraffau 84, 20 Mehefin 2013 (am)
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig Chwarae Teg paragraff 84, 20 Mehefin 2013 (am)

# Atodiad A – Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

Roedd cylch gorchwyl ein hymchwiliad fel a ganlyn:

- Pa mor effeithiol yw ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc?
- Pa gamau y gellir eu cymryd i wella neu gryfhau'r gefnogaeth sydd ar gael i ddarpar entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru?

**Materion allweddol**

Roedd y materion a ystyriwyd gennym fel rhan o'r cylch gorchwyl hwn yn cynnwys y canlynol:

- Beth yw profiadau entrepreneuriaid ifanc yng Nghymru?
- Faint o adnoddau ac arian y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi tuag at hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc? A yw'n ddigon?
- Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru?
- Sut y mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at hyrwyddo entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn ymgorffori materion fel cydraddoldeb, menter gymdeithasol ac amrywiaethau rhanbarthol mewn sgiliau a chyfleoedd hyfforddi?
- Pa gyfleoedd a gaiff eu cyflwyno drwy ehangu entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc fel modd o fynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch ymysg pobl ifanc?
- I ba raddau y mae entrepreneuriaeth yn ganolog i sefydliadau addysg uwchradd, addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru?
- Pa dystiolaeth sydd ar gael o ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at gefnogi ac annog entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc?
- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso ei gweithgareddau entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc? Pa effaith y mae wedi ei chael ar nifer y bobl sy'n dechrau busnes?

- Pa enghreifftiau o arfer da ym maes polisi entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc y gellir eu canfod o fewn Cymru, yn ehangach o fewn y DU, ac yn rhyngwladol?

## Atodiad B – Ymweliad â Sefydliad Alacrity, Casnewydd, 6 Mehefin 2013

Yr aelodau a oedd yn bresennol: Byron Davies, Mick Antoniw, Eluned Parrott, David Rees, Joyce Watson

**Crynodeb o'r wybodaeth a roddwyd gan Simon Gibson, Prif Weithredwr Wesley Clover ac un o Ymddiriedolwyr Gwreiddiol Sefydliad Alacrity (ynghyd â gwybodaeth bellach a ddarparwyd wedyn yn ysgrifenedig gan Raman Mistry, Prif Swyddog Gweithredol).**

*Tarddiad Alacrity*

- Seiliwyd Sefydliad Alacrity ar brofiad busnes Wesley Clover sy'n cwmpasu 25-30 o flynyddoedd.
- Mae Wesley Clover wedi cefnogi tua 90 o fusnesau newydd gwerth $13.3 biliwn o ran eu hallbwn economaidd o £4,000 gwreiddiol gan Syr Terry Matthews.
- Cyfartaledd gwerth y busnesau y mae Wesley Clover wedi'u cefnogi yw $150m, a chrëwyd tua 80,000 o swyddi.
- Arferai Wesley Clover gymryd llawer o raddedigion o Brifysgol Waterloo yn Ontario, Canada ond dechreuodd wynebu cystadleuaeth gan gwmnïau fel Google am raddedigion Waterloo. Felly penderfynodd Wesley Clover gynnig lleoliadau hyfforddi blwyddyn o hyd ond sylweddolodd y byddai hyn yn llawer gwell pe bai'n cynnwys amrywiaeth ehangach o randdeiliaid yn cynnwys llywodraeth, prifysgolion a'r sector preifat.
- Cyflwynodd Simon Gibson syniadau Alacrity i fwrdd annibynnol a benderfynai ar ddyraniadau cyllid ar ran llywodraeth British Columbia. Cefnogodd y bwrdd ei gynnig a sefydlwyd Alacrity yn Canada.
- **Cyfarfu Simon Gibson â Ieuan Wyn Jones AC, y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd, i drafod y syniad o ddod ag Alacrity i Gymru.** Mae'n dal mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU.
- **Er bod y broses yn cymryd peth amser, penderfynodd Llywodraeth Cymru gefnogi syniad Alacrity** a chafodd

Sefydliad Alacrity ei lansio yng Nghymru drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Wesley Clover a buddsoddwyr preifat eraill.

- Cytunwyd ar gyllid ym mis Awst 2011, er na symudodd y Sefydliad i'w safle yng Nghasnewydd hyd nes fis Ebrill 2012 am fod gwaith ailwampio i'w wneud ar yr adeilad sydd ar brydles gan Gyngor Casnewydd.
- **Agorwyd Alacrity House yn swyddogol ym mis Medi 2012** gan Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, a Syr Terry Matthews.

### *Sut y mae Alacrity yn gweithio*

- Caiff hanner cant y cant o'r cyllid dros bum mlynedd y rhaglen yng Nghymru ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a hanner cant y cant drwy haelioni cwmnïau preifat. Yn ogystal â Wesley Clover, y buddsoddwyr preifat eraill yw Sefydliad Waterloo ac Andrew Probert, cydsefydlydd Admiral Insurance.
- Ceir dwy gangen gyllido – y gyllideb weithredol o £3.15m a 'chyllid sbarduno' o £2.5m (dros gyfnod o 5 mlynedd), sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi buddsoddiadau yng nghwmnïau mwyaf addawol Alacrity. Mae busnesau'n cael symiau sylweddol o arian (£250,000) gan y teimlir y byddai symiau is yn annigonol ac y byddai'r busnes yn annhebygol o lwyddo ar y raddfa a ragwelir. Nod Alacrity yw creu cwmnïau sy'n cyflogi cannoedd o bobl, nid pedwar neu bump yn unig er enghraifft.
- Un o amodau Sefydliad Alacrity yw bod y busnesau sy'n datblygu yn cael eu lleoli yng Nghymru.
- Mae Alacrity yn darparu'r hyn sydd yn ei hanfod yn addysg uwchraddedig mewn masnacheiddio ac entrepreneuriaeth, cam busnes sydd 1½ gwaith yn hwy na'r cyfnod arloesi. Nid oes llawer o bobl yn deall y cysyniad hwn at ei gilydd ac yn aml, daw cyllid i ben wedi'r cam dyfeisio/arloesi am fod cyllidwyr yn meddwl fod y gwaith wedi'i wneud.
- Mae Alacrity yn dilyn model wedi'i ysgogi gan y galw yn hytrach na'r cyflenwad. Mae'r ffordd y mae Alacrity yn gweithio yn radical yn yr ystyr hon: yn hytrach na datblygu cynnyrch a mynd ag ef i'r farchnad, mae ei uwch-bersonél yn cyfarfod â byrddau

corfforaethau mawr, yn gofyn iddynt beth sydd ei angen arnynt, yna'n datblygu'r cynnyrch sydd ei angen.

- Ymysg yr enghreifftiau o gynnyrch sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, mae platfform e-ddysgu digidol ar gyfer addysg uwch ac adnodd i lywodraeth allu canfod achosion o bobl yn osgoi talu trethi.
- Mae'r holl gynnyrch, fwy neu lai, yn seiliedig ar feddalwedd, sy'n adlewyrchu natur partneriaid strategol Alacrity.
- Y trefniant gyda'i bartneriaid corfforaethol mawr yw bod hawliau eiddo deallusol yn aros gydag Alacrity nes corffori'r busnes pan fydd yr hawliau'n cael eu trosglwyddo i'r cwmni newydd.
- Un fantais i fodel Alacrity yw bod y myfyrwyr yn cael eu cefnogi gan gwmnïau rhyngwladol a fydd yn cyllido gweithgarwch gwerthiant a marchnata. Hefyd, gall y timau o fyfyrwyr bwyso a mesur wrth ystyried cyfleoedd gyda gwahanol gwmnïau yn hytrach na chael eu cloi i mewn i'r cyfle cyntaf sy'n cael ei gynnig iddynt.

***Trefniadau recriwtio***

- Mae gan Alacrity berthynas â nifer o'r prifysgolion y mae'n ymweld â hwy i roi cyflwyniadau neu ddarlithoedd. Mae'r berthynas gryfaf rhyngddo a Chaerdydd ac Abertawe ond mae'n recriwtio o brifysgolion eraill yn cynnwys Bryste, Caerwysg, Caerfaddon, Southampton, University College London, Imperial College London, Essex a King's College London.
- Mae Alacrity hefyd yn defnyddio'i rwydweithiau ei hun a rhwydweithiau graddedigion, ac mae'n hysbysebu drwy wefan o'r enw Enternships.com fel ffordd o gyrraedd myfyrwyr. Hyd yn hyn, mae tua 200 o raddedigion wedi ymgeisio, ac mae Alacrity wedi dewis 40 ohonynt i'w cyfweld.
- Mae Alacrity wedi recriwtio 18 o raddedigion sydd wedi'u trefnu'n bum tîm. Yn ddelfrydol, bydd y myfyrwyr yn gweithio mewn grwpiau o bedwar, tri ohonynt yn dod o gefndir technegol perthnasol - cyfrifiadureg fel arfer - ac un o gefndir annhechnegol.
- Daw'r recriwtiaid o amryw o wahanol gefndiroedd a gwledydd.

- Mae un o'r graddedigion wedi gadael Alacrity drwy gydsyniad am ei fod eisiau mynd yn ôl i weithio yn y busnes yr arferai weithio iddo cyn ymuno ag Alacrity.

***Sylwadau eraill***

- O'r tua 130 sy'n graddio mewn Cyfrifiadureg bob blwyddyn ym mhrifysgol Caerdydd a phrifysgol Abertawe, dywedodd Simon Gibson fod 70 y cant ohonynt yn mynd i Lundain lle cynigir cyfleoedd mwy perthnasol. Cymharwyd hyn â nifer y myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau eraill megis astudiaethau cyfryngau y gellid dadlau eu bod yn cynnig llai o gyfleoedd gwaith ar gyfer y rhai sy'n graddio.
- Dywedodd Simon Gibson **nad oedd addysg uwch yn cynnwys llawer o'r elfennau sydd eu hangen i redeg busnes technegol newydd llwyddiannus, er enghraifft ysgrifennu manylebau, defnyddio llyfrgelloedd cod, rheoli prosiectau ac yn benodol, roedd y pwyslais ar sut i werthu'n annigonol.** Pwysleisiodd nad yng Nghymru'n unig oedd y sefyllfa hon yn bodoli.
- Roedd Simon Gibson **yn dadlau'n gadarn mai sgil wedi'i dysgu yw entrepreneuriaeth**, h.y. cael eu ffurfio, nid eu geni, y mae entrepreneuriaid, ac mai camgymeriad oedd awgrymu ei bod hi'n nodwedd enynnol. Dywedodd mai cael yr hyder i gymryd syniad a gwneud iddo gydweddu â'r farchnad oedd entrepreneuriaeth.
- Yng Nghymru, ceir llawer o syniadau creadigol a dim digon o fasnacheiddio a chrebwyll  busnes, sy'n sgiliau a ddysgir.
- Cadarnhaodd Simon Gibson bwysigrwydd **rhaglenni deori** - rhaid i'r cyfnodau fod yn ddigon hir ac o leiaf flwyddyn o hyd.
- Y tri phrif beth sydd eu hangen ar fusnes yw Cynnyrch, Cwsmer a Refeniw.

***Cynlluniau ar gyfer y dyfodol***

- Fel rhan o gytundeb cydweithredu Alacrity, y nod yw recriwtio o leiaf 10 o raddedigion bob flwyddyn gyda chanlyniad disgwyliedig o 2 gwmni newydd y flwyddyn neu 10 cwmni dros 5 mlynedd.

- Nid yw'r cwmnïau newydd wedi'u deillio eto gan na ffurfiwyd y timau cynharaf nes fis Medi 2012. Mae Alacrity yn disgwyl y bydd ei gwmnïau cyntaf yn mynd yn annibynnol dros y 3 i 6 mis nesaf.
- Mae Simon Gibson hefyd yn cynnal trafodaethau gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ynglŷn â'i fewnbwn a'i gymorth i fodel Alacrity.

***Crynodeb o drafodaethau pellach gyda Simon Gibson a Raman Mistry***

- Mae Alacrity wedi cael profiad sylweddol o weithio ym Mhrydain a Canada. Er bod nifer o bethau'n debyg rhwng y ddwy wlad, nododd Alacrity fod eu hagweddau at entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc yn cyferbynnu'n sylweddol.
- Gall ansawdd pobl a/neu syniadau fod yn debyg (yr un bobl, yr un arian, yr un syniadau) ond roedd gwahaniaeth yn yr ystyr bod **y meddylfryd, yr ymagwedd a'r hyder yn well yn Canada.**
- **Mae angen i awdurdodau lleol yng Nghymru fod yn fwy mentrus.** Profiad Alacrity yn Ottawa oedd bod diwylliant Canada yn llawer mwy hyderus, yn enwedig o ran y modd yr ymatebent i syniadau Alacrity ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.
- Mae angen i fusnesau'r dyfodol yng Nghymru fuddsoddi amser ac arian mewn "Eiddo Deallusol". Nid codi adeiladau newydd sy'n gallu troi'n brosiectau ymffrost yn hawdd yw hanfod dyfodol busnes, ond arloesi â chynnyrch a gwasanaethau newydd.
- Awgrymwyd y dylid annog cwmnïau i weithio gydag Ardaloedd Menter i godi adeiladau swyddfa/cwmnïau yn yr ardaloedd hynny.
- Awgrymodd Simon Gibson y dylai fod **rhaglen debyg i Alacrity ar gyfer y biowyddorau yng Nghymru**, gan bwysleisio bod cyllid ac amser yn hanfodol ar gyfer llwyddo yn yr hirdymor.
- Mae **cydrannau hanfodol diwylliant entrepreneuraidd wedi'u nodi isod.** Dyma a oedd yn cael eu hystyried yn brif feysydd i'r Pwyllgor roi mwy o sylw iddynt/eu hyrwyddo yn ei adroddiad a'i argymhellion (a meysydd a fyddai'n arwain at economi lwyddiannus):

  - **Syniadau a Sgiliau:** dylai hyn gychwyn gyda'r ysgolion cynradd a pharhau drwy'r ysgol uwchradd. Beth am gynhadledd entrepreneuriaeth flynyddol i bobl ifanc, lle gall pobl ifanc entrepreneuraidd ysbrydoli eu cyfoedion?
  - **Cyfalaf:** mae diffyg trefniadau sicrhau cyfalaf yng Nghymru, nid yn gymaint am symiau hyd at £1m i fusnesau newydd, ond yn y categori rhwng £2m a £4m, er mwyn galluogi cwmnïau i ddatblygu a thyfu. Teimlid bod Cyllid Cymru yn rhy fiwrocrataidd. Dylid ystyried banc ecwiti i Gymru. Hefyd dylid cynnal cyfalaf drwy gydol y broses ddatblygu nid dim ond i lansio cynnyrch. Mae angen datblygu gwell cymorth busnes rhwng buddsoddwyr a busnesau.
  - **Seilwaith**: mae band eang cyflym yn hanfodol ledled Cymru yn ogystal ag ymyriadau i sicrhau bod y cysylltiadau hyn i'w cael ym mhob rhan o Gymru. Hefyd, mae angen dull mwy strategol o leoli adeiladau cwmnïau o fewn awdurdodau lleol Cymru. Mae Alacrity wedi'i chael hi'n anodd dod o hyd i leoliadau addas i'w fusnesau. Casnewydd, er enghraifft, yw'r ardal orau o ran ei hygyrchedd i weddill De Cymru, dalgylch Bryste a chysylltiadau cyflym â Llundain, a dylai fod yn elwa i'r eithaf ar yr asedau hyn. Nid oedd mannau fel Aberystwyth yn cael eu hystyried yn ddelfrydol oherwydd eu cysylltiadau gwael (rhyngrwyd/trafnidiaeth).
  - **Cyfleoedd marchnad:** mae Alacrity yn syniad deniadol am ei fod yn priodi cyflenwad a galw, yn hytrach na chael ei arwain gan y cyflenwad. Bu modd i bartneriaid y cwmni greu cysylltiadau â chwmnïau mawr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a darparu ffordd i mewn i'r graddedigion drwy eu cysylltiadau.
- Mae Alacrity yn dibynnu ar ei gysylltiadau busnes i addysgu a mentora ei raddedigion. Mae ganddo tua 50 o bobl sy'n rhoi o'u hamser eu hunain i fentora/darlithio i'r myfyrwyr – pobl fel David Stevens (Cyfarwyddwr gydag Admiral Group), John Pluthero (cyn brif swyddog gweithredol Cable & Wireless) a Gareth Edwards (cyn chwaraewr rygbi) ar bynciau fel gwaith tîm, sut i ymdrin â chyfalafwyr menter, bancwyr buddsoddi a gwleidyddion.
- Ni chewch ddim heb i chi ofyn. Nid yw pobl yng Nghymru'n sylweddoli faint o ewyllys da sy'n bodoli tuag at addysg a phobl

ifanc. **Dylai Prifysgolion fabwysiadu rheol 5:95 Harvard gyda'u graddedigion** – os canolbwyntiwch chi ar 5% o'ch cefnogwyr, fe gynhyrchwch chi 95% o'ch rhoddion.

- Beirniadodd Simon Gibson y prifysgolion am barhau i gynhyrchu gormod o raddedigion "cyfryngol" ac mai'r hyn sydd eu hangen ar fusnes a'r economi yw graddedigion STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg).
- Y gwahaniaeth rhwng dull Alacrity a dull ysgolion busnes traddodiadol o weithredu yw'r pwyslais ar ddysgu cymhwysol yn hytrach na dysgu damcaniaethol, h.y. caiff myfyrwyr eu dysgu sut i werthu, sut i drafod, sut i godi arian. **Mae "dysgu cymhwysol" Alacrity yn gweithredu fel prentisiaeth i'r graddedigion wrth sefydlu cwmni.** Awgrymodd Simon Gibson y dylai Cymru fuddsoddi mewn Academi Gwerthu Genedlaethol a fyddai'n trawsnewid y tirlun busnes yng Nghymru.
- Mae gan Alacrity ymagwedd ragweithiol tuag at recriwtio, gan dargedu israddedigion yn eu blwyddyn olaf â chyflwyniadau a darlithoedd a chynnwys graddedigion Alacrity yn y rhaglen honno. Ceir cymysgedd o recriwtio agored a dethol o blith peirianwyr cyfrifiadurol arbenigol a graddedigion "annhechnegol".
- O ystyried y gallai graddedigion cyffredin adael y brifysgol â dyled o dros £44,000, gofynnodd Simon Gibson a oedd y math yma o **ddyled yn gwneud pobl ifanc yn llai parod i wynebu risg a'i fod yn mygu eu creadigrwydd drwy wneud iddynt ddewis gyrfaoedd diogel a saff yn hytrach na bod eisiau dod yn entrepreneuriaid.** Mewn cyfweliadau, gofynnwyd i ymgeiswyr drefnu'r canlynol yn ôl blaenoriaeth: Gwobr; Creadigrwydd; Cydnabyddiaeth; a Diogelwch. Roedd Alacrity wedi sylwi ar newid arwyddocaol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth i 'Diogelwch' godi o waelod y rhestr i'r brig oherwydd ofnau ynghylch yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd.
- Nododd Simon Gibson nad oes unrhyw gwmnïau cyfrifiadurol Prydeinig na chwmnïau telathrebu Prydeinig wedi'u sefydlu yn y DU ar hyn o bryd. O ystyried bod Llywodraeth y DU yn bwriadu gwario biliynau, os nad triliynau, o bunnoedd ar dechnoleg gwybodaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, awgrymodd y dylai'r Llywodraeth gyllido strategaeth genedlaethol a fyddai'n annog cwmnïau Prydeinig i ateb galw o'r fath.

- Gorffennodd Simon Gibson gyda'r ystyriaeth fod Alacrity yn gwneud gwahaniaeth sylweddol ac **os gallai greu 25 o gwmnïau technegol newydd, y byddai hynny'n trawsnewid tirlun economaidd Cymru.**

***Crynodeb o'r pwyntiau a wnaed gan raddedigion ifanc yn Alacrity***

- Cael eu recriwtio gan Alacrity oedd yr hyn a **ddenodd sawl un o'r graddedigion i Gymru**; mae'n fwy na thebyg na fyddent wedi dod yma fel arall.
- Roedd pobl ag uchelgais a dyhead i lwyddo yn tueddu i adael Cymru ar ôl addysg uwch am fod gwell cyfleoedd mewn mannau eraill, yn enwedig Llundain, er iddynt ychwanegu fod hon yn senario debyg i'r un yng Ngogledd Lloegr. (Mae'n bosibl fod hyn yn wir am ddiwydiannau uwch-dechnoleg yn benodol).
- Roedd un o'r graddedigion yn dod o Gasnewydd a chafodd ei ddenu at Alacrity oherwydd cyfleustra'r ffaith ei fod yn gallu byw gyda'i rieni wrth iddo gwblhau ei hyfforddiant.
- Roedd y ffaith fod Alacrity wedi'i **leoli yng Nghasnewydd** ac mai yng Nghymru y bydd yr holl gwmnïau newydd sy'n datblygu yn cael ei gweld fel **budd i'r economi** ac i ymdrechion i adfywio Casnewydd a'r ardal ehangach.
- Dylai hyn weithredu fel **effaith lluosydd** wrth i fwy o gwmnïau a phobl ddawnus adleoli yma am eu bod yn ei weld fel man da i wneud busnes.
- Bydd prosiect fel Alacrity hefyd yn helpu i gadw'r doniau gorau yma yng Nghymru.
- Un o brif fanteision Alacrity yw'r **cysylltiad agos â phobl lwyddiannus ysbrydoledig mewn busnesau go iawn**.
- Mae gan yr arbenigwyr busnes hyn gysylltiadau da â chwmnïau diwydiannol mawr a ffordd uniongyrchol i mewn i'r graddedigion ifanc y byddai'n llawer anos iddynt ei sicrhau drostynt eu hunain.
- Nid yw graddedigion Alacrity yn wynebu'r un broblem â'r rhan fwyaf o entrepreneuriaid ifanc o ran **dod o hyd i gyllid cyfalaf**, gan fod y rhaglen yn darparu cyllid sbarduno cychwynnol.

- Mae hyn yn cael gwared ar yr elfen o risg a rhwystrau i ennill cefnogaeth cwmnïau mawr fel Vodafone, fel un enghraifft o bartner mewn prosiectau cyfredol.
- Tynnwyd sylw at **bwysigrwydd cyfleusterau deori busnes** a bod angen i'r rhain fod yn ddigon hir i roi'r cyfle gorau i'r busnes. Fel arfer, darperir cyfleusterau deori am gyfnodau o hyd at dri mis, ond mae angen mwy o amser – blwyddyn fan lleiaf. Mantais Alacrity yw bod y lleoliad yn para blwyddyn lawn neu fwy ac mae hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr.
- Fel arfer, ni fyddai cyllid cynhaliaeth bersonol yn gysylltiedig â nifer o fathau o ddeori busnesau. **Mae'r tâl blynyddol y mae graddedigion Alacrity yn ei dderbyn (tua £13,500) yn helpu i roi'r sicrwydd sy'n dod gyda swydd arferol,** hyd yn oed os nad yw'r graddedigion ifanc yn trin y gwaith fel swydd. Maent yn ei weld fel hyfforddiant, datblygu prosiect a llwybr i lwyddiant gwell.
- Oherwydd y tâl, nid ydynt yn teimlo'u bod yn cymryd cymaint o risg wrth ddilyn llwybr entrepreneuraidd.
- Mae teuluoedd yn tueddu i fod yn gefnogol hyd yn oed os nad ydynt yn deall yn iawn beth y mae'r graddedigion yn ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o'u ffrindiau mewn swyddi traddodiadol neu'n ymdrechu i ddod o hyd i swyddi addas.
- Dywedodd un o'r graddedigion ei fod yn arfer gweithio ym maes recriwtio cyn penderfynu nad dyna oedd am ei wneud a'i fod yn **dymuno rhoi cynnig ar rywbeth gwahanol**. Mae Alacrity wedi rhoi'r cyfle hwnnw iddo.
- Er bod gan y rhan fwyaf o'r graddedigion **radd mewn cyfrifiadureg neu gefndir cyfrifiadurol**, gan adlewyrchu ffocws digidol Alacrity ar feddalwedd, caiff graddedigion mewn pynciau eraill eu recriwtio hefyd.
- Mae'r graddedigion annhechnegol yn tueddu i ymgymryd â'r swyddogaeth fwy strategol, sy'n canolbwyntio ar fusnes o fewn y tîm gyda'r tri aelod arall yn gweithio ar elfennau technegol y cynnyrch.
- I'r graddedigion nad ydynt yn arbenigo ar bwnc penodol, yr hyn sy'n bwysig yw **crebwyll busnes**.

- Er bod y flwyddyn gyntaf yn Alacrity yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau masnachol angenrheidiol, dywedodd y graddedigion fod gwaith prosiect yn dechrau'n syth.
- Dywedodd un o'r graddedigion ei fod wedi ceisio dechrau ei fusnes ei hun o'r blaen, ac nad oedd wedi llwyddo, ond nid oedd hynny wedi'i atal rhag rhoi cynnig arni eto gan ei bod hi'n bwysig dysgu o gamgymeriadau'r gorffennol. **Roedd yn optimistaidd ei fod mewn gwell sefyllfa i lwyddo gyda chymorth rhywbeth fel Alacrity.**

Gwnaed y sylwadau canlynol gan un o'r graddedigion ifanc yn benodol:

- Roedd wedi tyfu i fyny mewn tlodi yn India, a oedd yn gymhelliad i weithio'n galed, ac roedd wedi derbyn nawdd gan Brifysgol Abertawe.
- Dewisodd Brifysgol Abertawe am ei bod yn un o'r prifysgolion gwell ym maes peirianneg yn y DU (yn un o 10 prifysgol uchaf yr Ymarfer Asesu Ymchwil).
- Cafodd ei hyfforddi gan GO Wales am wythnos ac aeth yn ei flaen i fynychu **wythnos o weithdai gyda Busnes mewn Ffocws,** a ystyriai'n werthfawr.
- Roedd yn ei chael hi'n anodd argyhoeddi pobl ynglŷn â gwerth ei syniadau ar y dechrau a dywedodd fod **angen tîm cymorth i roi cyngor ar y gyfraith, gwerthiant a marchnata.** Roedd hyn yn hanfodol, a theimlai fod **Sefydliad Alacrity yn cynnig popeth** y mae'r holl wahanol ddarparwyr cymorth fel Busnes mewn Ffocws a GO Wales yn ei gynnig, ond mewn un man.
- Cyfarfu â Raman Mistry, Prif Swyddog Gweithredol Sefydliad Alacrity, mewn Ffair Yrfaoedd ym Mhrifysgol Abertawe.
- **Model sy'n gweithredu ar y galw yw Sefydliad Alacrity**: mae'r cynghorwyr yn profi gwerth y cynnyrch/gwasanaeth gydag arbenigwyr diwydiannol, sef y cwsmer i bob pwrpas yn y cyd-destun hwn. Maent yn fwy tebygol o brynu'r cynnyrch wedyn am ei fod wedi'i deilwra'n arbennig ar eu cyfer.
- Mae Alacrity yn rhoi bwrsariaethau i fyfyrwyr er mwyn iddynt allu talu biliau, costau byw ac ati tra'u bod yn datblygu'r cwmni, a dywedodd fod hyn yn hanfodol er mwyn galluogi myfyrwyr i ganolbwyntio ar sefydlu busnes heb orfod poeni am bethau o'r fath. Awgrymodd **nad oedd llawer o bobl ifanc yn sefydlu**

**busnesau am eu bod yn bryderus ynglŷn â thalu biliau,** a heb fod yn ddigon ffodus i allu mynd am rai misoedd/ blynyddoedd heb lif arian rheolaidd.

- Mae Alacrity yn eich rhoi mewn cysylltiad ag unigolion a sefydliadau sy'n eich galluogi i sefydlu busnes ar lefel fyd-eang, mewn marchnadoedd byd-eang, ond mae hefyd **yn rhoi sgiliau i'ch arfogi'n barod ar gyfer y byd mawr.** Soniodd am bwysigrwydd sgiliau ymwneud â phobl a chymorth Alacrity yn y maes penodol hwnnw.
- Dim ond dau o bobl a oedd gydag ef yn y brifysgol sydd wedi ceisio sefydlu eu busnesau eu hunain. Nid ydynt yn gwneud hynny gyda help y Sefydliad. Mae'n teimlo mai sefydlu busnesau £10,000 y maent, gan mai cymorth cyfyngedig a gawsant i wneud hynny, os cawsant gymorth o gwbl. **Oherwydd yr arbenigedd a'r cymorth a gafodd gan y Sefydliad, mae ef, ar y llaw arall, yn mynd i fod mewn sefyllfa i sefydlu busnes gwerth £1m o bunnoedd.** Dywedodd mai ffactor mawr yn hyn oedd y ffaith nad oedd syniadau ei ffrind wedi cael eu profi ar arbenigwyr ym myd diwydiant.
- Teimlai mai **pan fyddwch chi'n ifanc yw'r adeg ddelfrydol i ddechrau busnes,** gan fod eich dewisiadau'n prinhau wrth i chi dyfu'n hŷn, wynebu mwy ymrwymiadau a dod i ddibynnu ar incwm sefydlog.
- Mae llawer o bobl ifanc nad ydynt yn gwybod am y cymorth sydd ar gael ond credai nad yw pobl ifanc eisiau dod yn entrepreneuriaid neu'n ei ystyried yn gyfle realistig. Awgrymodd fod angen cyflwyno'r syniad o sefydlu busnes i bobl ifanc o oedran ifanc, pan fyddant yn dewis cyrsiau TGAU a Lefel A. **Mae angen cyflwyno enghreifftiau o fusnesau go iawn iddynt, er mwyn iddynt sylweddoli ei fod yn bosibilrwydd realistig.**
- Mae gweithio mewn swyddfa sy'n cael ei rhannu gyda busnesau newydd eraill yn wych, gan eu bod yn gallu rhannu syniadau, dysgu gan ei gilydd, ac ymelwa ar frwdfrydedd ac ysgogiad ei gilydd.
- Awgrymodd fod angen i Gymru ganolbwyntio ar feysydd ar wahân i ddiwydiannau traddodiadol fel gweithgynhyrchu, gan y gellir eu gwneud yn rhatach dramor. **Dylai'r ffocws fod ar gwmnïau technegol a dylid eu gwneud yn flaenoriaeth.**

## Atodiad C – Ymweliad â Chlwb Menter Sir y Fflint, Glannau Dyfrdwy, 6 Mehefin 2013

Yr aelodau a oedd yn bresennol: Nick Ramsay, Alun Ffred Jones, Keith Davies

Sefydlwyd Clwb Menter Sir y Fflint â chyllid gan raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru a chymorth gan Gyngor Sir y Fflint. Sefydlwyd y prosiect gan Rwydwaith Entrepreneuriaeth Busnes Sir y Fflint, dan arweiniad Askar Sheibani, Prif Swyddog Gweithredol cwmni atgyweiriadau telathrebu Comtek Network Systems (UK) Ltd. Mae Mr Sheibani hefyd yn un o Hyrwyddwyr Entrepreneuriaeth Busnes Llywodraeth Cymru.

Dechreuodd y Clwb Menter ym mis Ionawr 2013 i gefnogi entrepreneuriaid lleol drwy ddarparu cyfleoedd rhwydweithio; ymweliadau â busnesau yn yr ardal; siaradwyr gwadd ysbrydoledig; a chyfleoedd i ddysgu o brofiad pobl flaenllaw ym myd busnes. Mae'r Clwb Menter yn agored i bob oed ond mae entrepreneuriaid ifanc ac entrepreneuriaid cymdeithasol yn cael gwasanaeth mentora a chymorth ychwanegol yn ystod y rhaglen.

Treuliodd Aelodau'r Pwyllgor awr a hanner yn cymryd rhan mewn cyfarfod o'r Clwb Menter, yn cynnwys ymarfer torri'r garw a ddangosai bwysigrwydd sgiliau cyfathrebu mewn busnes, a chyflwyniad ar y Ddeddf Diogelu Data. Yna, cynhaliodd yr Aelodau drafodaethau ar wahân gydag aelodau o'r Clwb Menter a oedd rhwng 16 a 24 oed, a gyda chydlynydd a mentoriaid y Clwb Menter.

### Trafodaethau bwrdd crwn ag aelodau 16 i 24 oed o Glwb Menter Sir y Fflint, a Sharon Jones, Rheolwr Clwstwr y Dwyrain, Cymunedau yn Gyntaf

#### *Yr hinsawdd economaidd ac ysgogwyr eraill*

O ran aelodau'r Clwb Menter a oedd wedi gadael ysgol, daeth yn amlwg yn eithaf cyflym fod eu gweithgarwch entrepreneuraidd wedi deillio, yn rhannol o leiaf, o gael eu dadrithio gan farchnad waith ddisymud. Dywedodd James, sy'n rhedeg Mr J Designs gyda'i bartner Clwb Menter, John, wrth y grŵp ei fod wedi gadael y brifysgol â gradd ddosbarth cyntaf mewn dylunio cynnyrch. Dywedodd wrthym, fodd

bynnag, ei fod prin wedi gallu sicrhau cyfweliad, heb sôn am swydd, er iddo anfon dros 100 o ffurflenni cais. Dywedodd ei bod hi'n ddigalon ymgeisio am swyddi nad oedd eu heisiau ac nad oedd yn gallu eu cael beth bynnag.

Adleisiwyd y farn hon gan Tara, sy'n awyddus i redeg ei busnes ei hun fel peiriannydd sain a ffotograffydd. Roedd hi wedi astudio'r cyfryngau yn y brifysgol, ond cafodd swydd weinyddol yn y pen draw o ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd yn ei maes dewisol. Roedd hi'n senario debyg i'r hyn a ddisgrifiodd Barnes sy'n rhedeg busnes ifanc yn cynhyrchu modelau o ansawdd uchel ar gyfer gemau rhyfel. Dywedodd ei fod yn ymgeisio am swyddi nad oedd eu heisiau o gwbl ar ôl rhoi'r gorau i'w gwrs prifysgol ac nad oedd yn cael unrhyw gyfweliadau. Yn y diwedd, ei agwedd oedd: pam na wnaf i greu swydd i mi fy hun – swydd rwyf i wir ei heisiau?

Wrth ddisgrifio sut yr eginodd ei gynlluniau busnes, trafododd Barnes thema gyfarwydd i bob un o aelodau'r Clwb Menter, yn cynnwys y rhai a oedd yn dal mewn addysg lawn amser: brwdfrydedd ynglŷn â'u syniadau. Soniodd wrth y grŵp am y diddordeb a fu ganddo erioed mewn gemau rhyfel/antur, a sut y defnyddiodd hyn i weithio ar ei gynnyrch. Mae'n defnyddio argraffwyr laser 3D i'w creu. Dywedodd mai ef oedd ei gynulleidfa darged ei hun. Er bod ei fusnes yn eithaf arbenigol, soniodd Barnes fod iddo apêl fyd-eang, a bod ei gefndir Cymreig a'i wybodaeth am chwedloniaeth Gymreig yn ysbrydoliaeth fawr i'w waith.

Disgybl ysgol yw Owain, a disgrifiodd ei hun fel rhywun ar waelod yr ysgol entrepreneuraidd. Disgrifiodd sut yr oedd ei syniad am wasanaeth bysiau pwrpasol o ansawdd uchel yn cyfuno'i frwdfrydedd ynglŷn â thrafnidiaeth gyhoeddus a'i angerdd tuag at ei wlad. Dywedodd mai ei ddymuniad yn y pen draw oedd defnyddio'i wasanaeth bysiau i hybu twristiaeth a'r iaith Gymraeg.

Cyfeiriodd Jordan, disgybl ysgol arall, at y ffordd roedd ei ddiddordeb yn y celfyddydau wedi ysgogi ei syniad am ysgol berfformio theatr gerddorol. Fodd bynnag, cyfeiriodd hefyd at ddylanwad mentoriaid lleol Dragons' Den ar ei ddewis o fusnes, gan ddweud eu bod wedi tynnu ei sylw at fwlch yn y farchnad yn ddaearyddol am wasanaeth o'r fath.

***Materion gwledig***
Nododd James o Mr J Designs mai un o'r ffactorau a'i hysgogodd i sefydlu Mr J Designs oedd ei leoliad gwledig ym mhentref bach Helygain, sy'n golygu bod ganddo le i gynhyrchu ei gynlluniau. Mae'r busnes wedi elwa hefyd o werthu cynnyrch mewn siopau lleol.

Roedd Tara, a deithiai'n helaeth i Lundain, Manceinion a Lerpwl i ddod o hyd i waith ffotograffig, eisiau lleoli ei menter recordio sain yn lleol yn Sir y Fflint a gallai wneud hynny gyda'r grant a dderbyniodd a'r cymorth a gafodd drwy'r clwb.

***Manteision bod yn aelod o Glwb Menter***
Mewn ymateb i gwestiwn gan Alun Ffred Jones ynglŷn â'r agweddau mwyaf defnyddiol o fod yn aelod o Glwb Menter, daeth thema gyfarwydd arall yn amlwg, sef bod Clwb Menter yn un man cyfeirio gwerthfawr a oedd yn rhoi sylw i elfennau amrywiol rhedeg busnes.

Dywedodd James o Mr J Designs fod llawer o help ar gael i fusnesau newydd yng ngogledd Cymru, ond gallai fod yn anodd dod o hyd i'r holl wahanol bobl oedd eu hangen ar gyfer gwahanol bethau. Dywedodd fod Clwb Menter yn fan cyfeirio allweddol ar gyfer dod o hyd i'r wybodaeth hon. Roedd hon yn farn a adleisiwyd yn nes ymlaen yn y prynhawn gan fentor Dragons' Den, Christine Sheibani.

Eglurodd John, partner busnes James, fod y Clwb Menter wedi'u rhoi mewn cysylltiad ag amryw o bobl a oedd wedi'u helpu gyda materion technegol, fel sicrhau'r hawliau dylunio ar gyfer eu cynnyrch. Dywedodd hefyd fod ffrind iddo sy'n entrepreneur yn Nottingham yn ei ffonio'n aml i ofyn am wybodaeth a gawsai Mr J Designs gan y Clwb Menter gan na allai ddod o hyd iddi'n lleol. Yn y diwedd, meddai, roedd ei ffrind yn Nottingham wedi rhoi'r gorau i'w syniad.

Dywedodd Barnes hefyd ei fod wedi dysgu mwy am hawliau eiddo deallusol drwy'r Clwb Menter, a chyfeiriodd Jordan at y ffordd yr oedd y cymorth yn cael ei deilwra fel mantais fawr. Pwysleisiodd Sharon Jones eu bod yn gwahodd llawer o bobl o bob maes busnes er mwyn darparu gwybodaeth i'r entrepreneuriaid ifanc ar amryw o faterion, er enghraifft sut i lenwi ffurflenni treth a diogelu data a byddant yn ymateb i geisiadau'r entrepreneuriaid am siaradwyr gwadd.

Fel atodiad i'r drafodaeth am effaith amgylchiadau economaidd heriol ar ddewisiadau bywyd yr entrepreneuriaid, nododd John a James eu bod wrth sefydlu eu busnes drwy'r sianelau a awgrymwyd gan y Clwb Menter, wedi dysgu llu o sgiliau, megis cadw cyfrifon, a fyddai'n eu gwneud yn fwy cyflogadwy pe na bai eu menter yn llwyddo. Soniodd James ei fod wedi cael cynnig dwy swydd ers sefydlu Mr J Designs.

Yn yr un ffordd, roedd Tara a Barnes yn pwysleisio'r rhan allweddol roedd y Clwb Menter a menter Dragons' Den wedi'i chwarae yn meithrin eu hunanhyder. Pwysleisiodd Sharon fod materion yn ymwneud â hyder yn cael eu trafod yn gynnar iawn yn y broses drwy weithdai a pholisi drws agored gydag aelodau staff.

### *Cyllido*

Cyfeiriodd yr entrepreneuriaid ifanc at sawl ffynhonnell nawdd i'w prosiectau busnes. Mae entrepreneuriaid Mr J Designs wedi elwa o Fwrsariaeth Entrepreneuriaeth i Bobl Ifanc o £6,000 a ddefnyddiwyd ganddynt ar gyfer prototeipiau ymysg pethau eraill. Dywedodd James nad y math o fusnes a redai a oedd wedi arwain at ddyfarnu'r fwrsariaeth ond yn hytrach, elfennau sylfaenol o'r cynllun busnes, yn cynnwys rhagolygon manwl. Dywedodd Barnes ei fod wrthi'n ymgeisio am yr un fwrsariaeth.

Dywedodd Tara ei bod hi wedi derbyn £2,000 drwy raglen Cadwyn Clwyd, ffrwd ariannu sy'n targedu ardaloedd gwledig yn benodol.

Dywedodd Owain fod symud o ardal wledig i ddinas Wrecsam wedi cyfyngu ar yr arian a oedd ar gael iddo drwy ei wneud yn anghymwys i ymgeisio am grant datblygu gwledig.

O ran cyllid cyffredinol i Glwb Menter Sir y Fflint, eglurodd Sharon Jones mai menter chwe mis oedd y syniad gwreiddiol. Ond dywedodd Sharon fod llwyddiant y Clwb wedi ysgogi penderfyniad i ymestyn y rhaglen am chwe mis arall a bod entrepreneuriaeth bellach wedi dod yn rhan ganolog o agenda Cymunedau yn Gyntaf yn lleol. Nododd Sharon fod yr amser sy'n cael ei roi gan wirfoddolwyr o'r gymuned fusnes leol yn amhrisiadwy i lwyddiant y rhaglen.

### *Addysg a chysylltiadau ag ysgolion*

Cytunai'r holl gyfranogwyr y gellid dysgu elfennau o entrepreneuriaeth yn gynharach ac yn well yn yr ysgol. Dywedodd James fod llawer o'r

wybodaeth a gyflwynwyd yn yr ysgol yn ddiwerth a mynegodd ei awydd i weld mwy o ffocws ymarferol mewn rhai meysydd pwnc. Holai, er enghraifft, pam nad oedd gwersi mathemateg yn mynd i'r afael â phynciau fel cyfrifyddu a chymhwysiad ymarferol adnoddau fel Excel. Dywedodd fod cyrsiau Astudiaethau Busnes yn anelu at lefel rhy uchel heb ymdrin ag agweddau ymarferol rhedeg busnes, fel delio â Chyllid a Thollau EM.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi cael profiadau cadarnhaol o ymdrin â sefydliadau addysg lleol, yn enwedig Coleg Iâl, Coleg Glannau Dyfrdwy a Phrifysgol Glyndŵr, sydd wedi darparu cyfarpar a chyngor arbenigol. Cafwyd cefnogaeth gan Ysgol Uwchradd John Summers hefyd. Dywedodd Jordan mai yn sgîl awgrym uniongyrchol gan ei brifathro y bu iddo gymryd rhan ym menter Dragons' Den.

**Trafodaeth bwrdd crwn gyda chydlynydd a mentoriaid y Clwb Menter**

Sharon Jones – Rheolwr Clwstwr y Dwyrain, Cymunedau yn Gyntaf
Christine Sheibani – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn Comtek Network Systems
Paul Maddocks – entrepreneur a mentor ym maes telathrebu
Leyla Edwards – sefydlydd a Rheolwr Gyfarwyddwr KK Finefoods plc
Alison Roberts – Busnesau'n Cefnogi Cymunedau
Azi Rashud – Pennaeth, Ysgol Uwchradd John Summers

***Yr agwedd gyffredinol tuag at fentora***

Pan ofynnwyd iddi ynglŷn â'r allwedd i lwyddiant y rhaglen entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc, cyfeiriodd y mentor Christine Sheibani at y diffyg rheolau wrth wraidd athroniaeth y rhaglen. Dywedodd fod yn rhaid i'r mentoriaid fod yn hyblyg gyda grŵp mor amrywiol o bobl ifanc ac y dylent geisio cymhwyso'r hyn a oedd yn angenrheidiol ym mhob achos unigol. Pwysleisiodd fod osgoi modelau set neu raglenni rhagnodedig yn fantais.

Pwysleisiodd Paul Maddocks fod hirhoedledd yn agwedd allweddol o'r model. Dywedodd ef a Christine nad oedd dechrau busnes yn llwyddiant ynddo'i hun, ond mai'r gwaith caletaf oedd sicrhau ei fod yn goroesi ei 12 mis cyntaf mewn busnes. Yn wir, dadleuai Paul efallai na ellid galw'r rhaglen yn llwyddiant eto. Dywedodd y dylid mesur ei llwyddiant mewn 12 neu 18 mis, yn ôl faint o'r busnesau fydd wedi goroesi a ffynnu.

Roedd y panelwyr yn unfryd eu barn fod y diwylliant cryf o entrepreneuriaeth yn Sir y Fflint wedi helpu'r rhaglen, gan honni bod presenoldeb diwydiannau mawr llwyddiannus yn yr ardal wedi bod yn ddylanwad sylweddol, a bod yr ymdrech i gasglu arweinwyr busnes at ei gilydd yn Rhwydwaith Menter Busnes Sir y Fflint wedi bod yn bwysig. Nodwyd, er enghraifft, fod UPM Shotton Paper yn noddi ysgol leol ac yn cyfranogi mewn gweithdai busnes ac entrepreneuriaeth.

Roedd Paul a Christine hefyd yn canmol yr ysbryd cymunedol a symbylwyd gan weithgareddau entrepreneuriaeth lleol, a dywedodd ei bod hi'n hollbwysig fod pobl yn tynnu i'r un cyfeiriad fel rhan o ymagwedd gydgysylltiedig a chymunedol.

Soniodd Azi Rashud am bersonél. Dywedodd fod arweiniad personol mentoriaid Dragons' Den ac eraill, a'r amser a'r ymdrech a roesant yn wirfoddol, wedi bod yn allweddol i ysgogi'r prosiect yn ei flaen. Pan ofynnodd Nick Ramsay, Cadeirydd y Pwyllgor, i Azi Rashud a fyddai hyn yn ei gwneud hi'n anodd cyflwyno'r rhaglen mewn rhannau eraill o Gymru, dywedodd nad oedd fformiwla hud i lwyddiant, a bod angen i chi gael y bobl iawn yn rhan o bethau.

***Agweddau***

Er gwaethaf y consensws cyffredinol fod diwylliant entrepreneuraidd Sir y Fflint wedi bod yn ffactor cadarnhaol, cyfeiriodd Leyla Edwards, sefydlydd y gweithgynhyrchwyr bwyd wedi'i rewi KK Finefoods plc, at ffactorau y teimlai eu bod yn rhwystro datblygiad diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru yn gyffredinol. Nododd nad Cymry oedd perchnogion y rhan fwyaf o'r busnesau ar ei hystâd ddiwydiannol, a bod angen newid agweddau er mwyn i fusnesau Cymreig allu ffynnu.

Ar yr un thema, pwysleisiodd Christine fod entrepreneuriaeth yn ymwneud ag egni, ysgogiad, brwdfrydedd ac ysfa i lwyddo. Dywedodd fod cefndir person yn gymharol ddibwys, ond bod presenoldeb y rhinweddau unigol hyn yn allweddol. Ychwanegodd Paul y dylid cofio y gallai fod tensiwn naturiol rhwng ceidwadaeth rhieni entrepreneuriaid ifanc, a'r parodrwydd i gymryd risg sydd ei angen er mwyn llwyddo.

***Argymhellion ar gyfer y dyfodol***
Dywedodd Christine fod angen mwy o fentora un i un i ateb anghenion yr entrepreneuriaid ifanc, ac y dylai hyn fod yn rhan o gylch gorchwyl cyfranogwyr, yn hytrach na mater gwirfoddol. Dywedodd fod angen rhagor o fentoriaid busnes ar y rhaglen.

Gofynnodd Paul am ragor o gefnogaeth i'r rhaglen, yn cynnwys cefnogaeth ariannol. Awgrymodd hefyd y dylid cyflwyno rhyw fath o gyfnod deori i fusnesau newydd iddynt allu canolbwyntio ar elfennau craidd y busnes heb i ofynion biwrocrataidd a materion cydymffurfio fynd â'u hamser. Dywedodd fod y flwyddyn gyntaf o weithredu yn allweddol, ac y dylid rhoi rhyddid i'r entrepreneur ganolbwyntio ar yr elfennau o'r busnes a'u hysbrydolodd i ddod yn entrepreneur yn y lle cyntaf, yn hytrach na chael ei frwdfrydedd wedi'i danseilio wrth orfod ymdrin â materion biwrocrataidd.

Dywedodd Sharon fod Cymunedau yn Gyntaf yn cynnal rhaglen codi ymwybyddiaeth gyda sefydliadau gwirfoddol mewn ysgolion lleol. Hyd yma, mae gweithgareddau ysgol wedi canolbwyntio ar ddisgyblion blynyddoedd 10 ac 11, ond mae cynlluniau bellach i gyflwyno rhaglenni llythrennedd ariannol a rhaglenni eraill cysylltiedig i ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 ac i fyny. Hefyd, gobeithient addasu'r rhaglen yn y clwb fel bod modd achredu'r rhai sy'n cymryd rhan.

## Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1307

**12 Mehefin 2013**

Karl Belizaire, Rheolwr Polisi, UnLtd

Amanda Everson, Rheolwr Datblygu, Live UnLtd yng Nghymru

Dan Butler, Cyfarwyddwr, A LEAP

Dale Williams, Cyfarwyddwr, Yolk Recruitment

**20 Mehefin 2013 (am)**

Anne Colwill, Rheolwr Ardal, Menter yr Ifanc Cymru

Sharon Davies, Prif Swyddog Gweithredol, Menter yr Ifanc

Lesley Kirkpatrick, Cyfarwyddwr, Prince's Trust – Cymru

Mike Learmond, Rheolwr Datblygu Rhanbarth Gogledd Cymru, Ffederasiwn y Busnesau Bach

Rachel Bowen, Rheolwr Polisi Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Kieran Owens, Entrepreneur Ifanc

Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr, Addysg Uwch Cymru

Julie Lydon, Is-ganghellor, Prifysgol De Cymru

Greg Walker, Dirprwy Brif Weithredwr, ColegauCymru

Mark Jones, Cadeirydd, ColegauCymru

**20 Mehefin 2013 (pm)**

Philip Drakeford, Pennaeth Polisi a Strategaeth (Addysg), Gyrfa Cymru

Jo Banks, Pennaeth Cymorth a Chanllawiau Ymysg Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru

Emlyn Williams, Rheolwr Menter, Coleg Menai, Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol Gogledd-orllewin Cymru

Sue Poole, Rheolwr Menter Addysg, Coleg Gŵyr, Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru

**26 Mehefin 2012**

Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Glynn Pegler, Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth Busnes

James Taylor, Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth Busnes

Sue Poole, Rheolwr Addysg Fenter, Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru

**10 Gorffennaf 2013**

Ken Skates AC, Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

Teresa Holdsworth, Dirprwy Gyfarwyddwr, Ymgysylltu a Chyflogaeth Ymysg Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru
Ella Davidoff, Pennaeth Cyflogaeth Ymysg Pobl Ifanc, Llywodraeth Cymru

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=6052

*Sefydliad*

A LEAP

Grŵp Adeiladu Addysg Fenter yn Abertawe

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Prifysgol Caerdydd

Gyrfa Cymru

Ymddiriedolaeth Carnegie UK

Chwarae Teg

ColegauCymru

Cyngor Sir Ddinbych

Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Ben Giles (model rôl Dynamo a Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth)

Addysg Uwch Cymru

Fforwm Dysgu Entrepreneuriaeth Castell-nedd Port Talbot

Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol Gogledd-orllewin Cymru

Prince's Trust - Cymru

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – Cefnogi Ymgysylltiad mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant

Siambr Fasnach De Cymru

Canolfan Entrepreneuriaeth Ranbarthol De-orllewin Cymru

Prifysgol De Cymru

UnLtd

Llywodraeth Cymru – Yr Adran Addysg a Sgiliau

Llywodraeth Cymru – Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Menter yr Ifanc Cymru

YMCA Cymru